Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
49/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/04/2023

# Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad Cam 1

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-877-0

**Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad Cam 1**

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Sam McAlister-Wilson, Lois Roberts, Ymchwil Arad. Claire Sinnema, Athro Cyswllt, Cyfadran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland. Dr Nia Cole-Jones, Dr Alison Glover, Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Thomas, H; Duggan, B; McAlister-Wilson, S; Roberts, L; Sinnema, C; Cole-Jones, N; Glover, A (2023). *Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad Cam 1*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 49/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymchwil-gydag-ysgolion-dysgwyr-ar-weithredur-cwricwlwm-i-gymru-yn-gynnar

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000255381
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau ..... 2
Geirfa ..... 3
Diolchiadau ..... 3
Crynodeb gweithredol ..... 4
1. Cyflwyniad ..... 12
2. Methodoleg ..... 17
3. Proffil yr ymatebwyr ..... 20
4. Y cynnydd cyffredinol o ran gweithredu’r cwricwlwm newydd ..... 22
5. Cynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad ..... 28
6. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ..... 34
7. Ieithoedd rhyngwladol ..... 40
8. Cynnydd ..... 44
9. Asesu ..... 56
10. Tegwch ..... 63
11. Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ..... 69
12. Casgliadau a materion i'w hystyried ..... 73
Atodiad A: Canllaw holi ar gyfer cyfweliadau ..... 82

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Proffil y sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng ieithyddol ................................20
Tabl 2. Proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth ............................................................21

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| HMS | Diwrnod Addysg a Hyfforddiant Mewn Swydd |
| Meysydd/MDPh | Meysydd dysgu a phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| Y Cwricwlwm | Y Cwricwlwm i Gymru |
| Ysgol pob oed | Ysgol 3 - 16 / 19 oed |

## Diolchiadau

Mae'r tîm ymchwil yn hynod ddiolchgar i'r holl uwch arweinwyr a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gyfrannu at yr astudiaeth.

## Crynodeb gweithredol

1. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf (Cam 1) gwaith ymchwil ansoddol gyda 64 o uwch arweinwyr mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a gynhaliwyd gan gwmni ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023, i archwilio profiadau cynnar ysgolion o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n dilyn yr adroddiad *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022* (Llywodraeth Cymru, 2022b) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Bydd adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ail gam (Cam 2) o gyfweliadau ag uwch arweinwyr, yn ogystal â gwaith maes gyda dysgwyr, yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2023.

**Y fethodoleg a'r gwaith dadansoddi**

2. Cymerodd cyfanswm o 64 o uwch arweinwyr ran yng nghyfweliadau Cam 1; dewiswyd 16 ohonynt o blith y rhai a gymerodd ran yn yr *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu* (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn ogystal â sampl ychwanegol o 48 o uwch arweinwyr. Recriwtiwyd sampl fwriadus o bobl i'w cyfweld i sicrhau bod pob rhanbarth yn cael ei gwmpasu a bod amrywiaeth o leoliadau'n cael eu cynnwys, gan gynnwys:

   - mathau o leoliad (ysgol gynradd, uwchradd, pob oed, ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion):
   - cyfrwng ieithyddol (cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg).

   Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd wrth ddethol y sampl o ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil. Gallai lleoliadau a oedd wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill gyda'u gweithgareddau paratoi fod wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliadau.

   Rhoddir disgrifiad o’r fethodoleg yn Adran 2 ac mae proffil o'r sampl wedi’i gynnwys yn Adran 3.

**Canfyddiadau: Cynnydd cyffredinol**

3. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn fodlon ar y cynnydd yr oeddent wedi’i wneud hyd yma gyda dylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Mynegwyd pryderon ynghylch

cynnydd mewn nifer fach o leoliadau ond nododd rhai uwch arweinwyr eu bod wedi bod yn bryderus yn flaenorol ynghylch maint y dasg a oedd o'u blaenau, ond eu bod bellach yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd da. Roedd ysgolion a ddywedodd eu bod wedi bod yn cynllunio ac yn datblygu eu cwricwlwm ers 3-4 blynedd yn ymddangos yn fwy hyderus o ran eu dulliau gweithredu na'r rhai a ddywedodd eu bod ar gamau cynharach o weithredu eu cwricwlwm.

4. Dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn fwyfwy parod i gymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros weithredu'r cwricwlwm. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod ffocws cynyddol ar addysgeg a gweithgaredd cydweithredol o fewn lleoliadau ac yn eu clystyrau. Cyfeiriwyd at weithgaredd cynyddol ar lefel clwstwr a hwyluswyd gan ymarferwyr fel enghraifft o gynyddu ymreolaeth a pherchnogaeth ymarferwyr o'r cwricwlwm.

5. Dywedodd uwch arweinwyr fod datblygu a gweithredu cwricwlwm eu lleoliad wedi creu heriau o ran capasiti ac amser staff, yn enwedig wrth gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau ei fod yn cwmpasu'r elfennau gofynnol a nodir yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

**Cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar draws ac o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad**

6. Dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn eu lleoliadau'n cynllunio ac yn mapio elfennau o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn erbyn pob un o'r Meysydd i sicrhau 'cwmpas' digonol ac i osgoi ailadrodd lle bo modd. Disgrifiwyd amrywiaeth o ddulliau o ddatblygu cysylltiadau rhwng pynciau a Meysydd. Roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fabwysiadu dull mwy integredig yn seiliedig ar thema neu bwnc, tra bod ysgolion uwchradd yn tueddu i adrodd am fwy o gydweithio rhwng arweinwyr pwnc, o gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, ac ymdrechion i nodi nodweddion cyffredin a chysylltiadau rhwng testunau mewn gwahanol bynciau a Meysydd.

7. Roedd amrywiadau o ran y Meysydd ble roedd uwch arweinwyr yn ystyried eu bod yn gwneud cynnydd da o ran dylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr yn gyffredinol fod Iechyd a Lles ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Feysydd mwy datblygedig o ran cydgynllunio a gweithio'n integredig. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn tueddu i bwysleisio ymdrechion eu lleoliad i sicrhau bod sgiliau a

ddatblygir mewn Mathemateg a Rhifedd yn cael eu mapio yn erbyn Meysydd eraill ac yn cael eu hintegreiddio’n effeithiol i'r Meysydd hynny. Cafwyd adborth cymysg ar lwyddiant yr ymdrechion i hyrwyddo cynllunio ar y cyd ym Meysydd y Dyniaethau a’r Celfyddydau Mynegiannol. Roedd yn ymddangos mai Gwyddoniaeth a Thechnoleg oedd y Maes mwyaf heriol o ran annog cynllunio ar y cyd, ym marn yr uwch arweinwyr.

8. Roedd sawl lleoliad yn rhoi sylw i fapio cynnydd o fewn y Meysydd, gydag uwch arweinwyr yn disgrifio sut roedd gweithgaredd clwstwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Fodd bynnag, cyfeiriodd uwch arweinwyr at heriau'n ymwneud â chapasiti wrth ryddhau staff i gymryd rhan mewn sesiynau cynllunio ar y cyd a gweithgarwch clwstwr.

**Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

9. Dywedodd llawer o leoliadau y gwnaed cynnydd da gyda'r ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan adrodd nad oedd rhieni a gofalwyr wedi codi pryderon gyda nhw, er eu bod weithiau wedi rhagweld y gallai fod problemau. Roedd rhai uwch arweinwyr wedi cael ymatebion negyddol gan rieni a gofalwyr mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ond roedd llawer wedi gallu mynd i’r afael â phryderon drwy gyfathrebu'n agored a thryloyw.

10. Dywedodd llawer o uwch arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, fod eu lleoliadau’n defnyddio deunyddiau o ffynonellau allanol (rhai wedi eu prynu fel arfer) i lywio ac arwain y gwaith o ddylunio, cynllunio a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mewn rhai achosion, dywedodd uwch arweinwyr fod eu lleoliadau wedi addasu rhai o’r deunyddiau hyn i sicrhau eu bod yn briodol i ddatblygiad y disgyblion.

11. Mynegodd rhai uwch arweinwyr yr awydd am gymorth mwy canolog ar gyfer dylunio'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chodwyd pryderon ynghylch gallu lleoliadau i gyflawni'r agwedd hon ar y cwricwlwm heb gostau ariannol.

12. Dywedodd sawl uwch arweinydd fod eu lleoliad wedi dyrannu'r cyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i aelod penodol o staff, drwy benodi Pennaeth Lles neu Gydlynydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er enghraifft. Dywedodd uwch arweinwyr fod arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gweithio gydag

arweinwyr Maes eraill i ymgorffori testunau'n gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu ieithoedd rhyngwladol**

13. Roedd gwahaniaethau clir yn y graddau yr oedd uwch arweinwyr cynradd ac uwchradd wedi ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd eu bod ar gamau cynnar o ran addysgu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion. Er bod rhai ysgolion cynradd eisoes wedi ymgorffori ieithoedd rhyngwladol drwy raglenni eraill, nododd y rhan fwyaf eu bod yn dibynnu ar weithgarwch cydweithredol ag ysgolion uwchradd neu bartneriaid allanol i gynnwys ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm.
14. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd barhad yn eu darpariaeth o ieithoedd rhyngwladol yn unol â datblygiadau'r cwricwlwm. Nododd rhai ohonynt gynnydd yn eu gweithgaredd i gefnogi'r ysgolion cynradd yn eu clwstwr.
15. Cyfeiriodd sawl uwch arweinydd, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, at bwysigrwydd blaenoriaethu datblygu sgiliau Cymraeg yn hytrach nag ieithoedd rhyngwladol.

**Trefniadau ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr**

16. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi datblygu cynlluniau cynnydd (a elwir yn aml yn ‘fapiau cynnydd’) ar draws y Meysydd, ac roedd sylwadau'n dangos bod egwyddorion cynnydd wedi’u hymgorffori yn y broses o ddylunio’r cwricwlwm. Mae ysgolion yn gweithio’n fewnol ac mewn clystyrau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
17. Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydnabod eu bod yn rhoi mwy o bwyslais ar y cynnydd a wneir gan y dysgwr unigol fel rhan o’u ffordd o feddwl a'u gwaith cynllunio mewn perthynas â chynnydd. Rhoddodd ysgolion sawl o enghraifft o fodelau cynnydd a dulliau y maent wedi’u datblygu a/neu’n eu treialu. Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod y dulliau newydd a oedd yn cael eu mabwysiadu i ymdrin â chynnydd dysgwyr yn gofyn i ymarferwyr newid eu meddylfryd, a bod hynny'n debygol o gymryd peth amser.

18. Fe wnaeth ysgolion fynegi pryderon neu nodi heriau mewn perthynas â sawl agwedd ar gynnydd, yn arbennig risg ganfyddedig o wahaniaethau wrth i ysgolion a chlystyrau fabwysiadu dulliau gwahanol o gofnodi ac adrodd ar gynnydd; a'r amser cynyddol y mae arweinwyr ac athrawon yn ei dreulio yn datblygu ac adolygu dulliau o ymdrin â chynnydd.

19. Disgrifiodd uwch arweinwyr newidiadau yn eu dulliau o adrodd i rieni a gofalwyr, gan gynnwys y fformat neu'r cyfrwng a ddefnyddir yn ogystal â'r hyn y maent yn adrodd arno i rieni. Dywedodd uwch arweinwyr fod amharodrwydd ymhlith ymarferwyr yn eu lleoliadau i gefnu ar ddulliau adrodd traddodiadol ar lefelau a graddau, weithiau yn absenoldeb cadarnhad o ddull asesu newydd o fewn yr ysgol.

**Trefniadau asesu**

20. Nododd uwch arweinwyr gynnydd o ran datblygu dulliau asesu newydd, gyda ffocws cynyddol ar asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio asesu ffurfiannol i lywio gwaith cynllunio a dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Soniodd uwch arweinwyr am y newid mewn meddylfryd ac agwedd sydd ei angen er mwyn gwireddu'r uchelgais o gyflwyno dull asesu newydd.

21. Nododd llawer o uwch arweinwyr ostyngiad yn swm cyffredinol yr asesu ffurfiol a wneir yn ystod y flwyddyn ysgol; fodd bynnag mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio asesiadau personol cenedlaethol i fesur cynnydd dysgwyr mewn darllen a rhifedd.

22. I lawer o uwch arweinwyr, erys cwestiynau mawr ynghylch asesu: dywedant eu bod yn aneglur ac yn pryderu am y data asesu y bydd yn ofynnol iddynt eu darparu fel rhan o drefniadau atebolrwydd. Mewn nifer o achosion, mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio offer asesu allanol ochr yn ochr â'r dulliau asesu newydd sy'n cael eu datblygu.

**Cefnogi tegwch a chynhwysiant**

23. Roedd uwch arweinwyr yn gweld tegwch a chynhwysiant fel blaenoriaethau parhaus a atgyfnerthwyd gan fframwaith a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â gofynion y cod ADY. Teimlai uwch arweinwyr eu bod bellach yn canolbwyntio mwy ar y dysgwr o ran eu dull o ddylunio'r cwricwlwm, gyda'r hyblygrwydd i deilwra cymorth

yn unol ag anghenion y dysgwyr. Teimlwyd bod ffocws cynyddol ar weithgarwch yn ymwneud â llais y dysgwr, a oedd bellach yn cael ei ystyried yn fwy canolog i ddylunio'r cwricwlwm, yn cefnogi addysg gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

24. Ystyriwyd bod dulliau mwy unigolyddol o fonitro cynnydd dysgwyr yn gyfrannwr allweddol at gynyddu tegwch a chynhwysiant. Dywedodd uwch arweinwyr y byddai rhoi mwy o bwyslais ar bob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad eu hunain yn cefnogi tegwch a chynhwysiant.

25. Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod newid cynnwys eu cwricwlwm i fod yn fwy amrywiol ac i adlewyrchu cymdeithas yn well yn newid cadarnhaol sy'n digwydd yn eu lleoliad. Teimlai uwch arweinwyr y gwnaed cynnydd da yn eu lleoliadau gyda'r agwedd hon ar y cwricwlwm, a bod ystod o adnoddau a chyfleoedd hyfforddi ar gael i gefnogi hyn.

**Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.**

26. Roedd ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ledaenu gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni. Dywedodd rhai eu bod yn ochelgar wrth gyfathrebu'r newidiadau yn sgil y Cwricwlwm i Gymru i rieni gan dynnu sylw at ystod o ddulliau a ddefnyddir i 'fwydo diweddariadau fesul tipyn' mewn ymdrech i osgoi gorlethu rhieni â gormod o wybodaeth. Dywedodd ysgolion eu bod wedi defnyddio eu crynodebau cwricwlwm gorfodol i rannu gwybodaeth â rhieni am y diwygiadau, gan nodi sut y mae'r cwricwlwm newydd wedi'i drefnu a rhoi trosolwg o ddulliau o ymdrin â chynnydd dysgwyr.

27. Soniodd rhai uwch arweinwyr nad oedd llawer yn mynychu digwyddiadau penodol i rieni a gofalwyr yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, megis gweithdai am y newidiadau. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi canfod bod gwell ymgysylltiad â rhieni a gofalwyr pan oeddent yn cynnal digwyddiadau a oedd yn ymgorffori gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, megis drwy gyflwyniadau, digwyddiadau dathlu a gwasanaethau yr oedd y plant hefyd yn cymryd rhan ynddynt. Roedd sawl lleoliad wedi dechrau cynnwys 'diwrnodau dysgu' fel dull newydd o adrodd, gan wahodd rhieni i weld a thrafod gwaith eu plentyn.

28. Disgrifiodd uwch arweinwyr amrywiaeth o ymdrechion i gynnwys rhieni a gofalwyr yn y broses o ddylunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr yn tueddu i ddweud bod ymatebion cyfyngedig gan rieni i ddulliau fel arolygon neu gyfarfodydd. Roedd adroddiadau bod lleoliadau'n cyfyngu ar eu hymgynghoriad â rhieni a gofalwyr nes bod ymarferwyr a lleoliadau wedi treulio mwy o amser yn dylunio eu cwricwlwm ac yn teimlo'n fwy hyderus o ran eu dulliau gweithredu.

**Materion i'w hystyried**

29. Cafodd y materion i'w hystyried ymhellach a nodir isod eu datblygu yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir uchod.

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog cydweithio rhwng lleoliadau, gan ganolbwyntio ar gefnogi cydweithio ymhlith arweinwyr Maes fel rhan o gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes achos dros ddatblygu adnoddau ychwanegol i gefnogi darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.
- Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid rhanbarthol, sicrhau bod ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hyrwyddo a'u darparu fel rhan annatod o drefniadau'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol.
- Yn ystod yr ail gam ymchwil hwn gydag uwch arweinwyr fel rhan o'r astudiaeth hon, dylid canolbwyntio ar ddeall y pwyntiau dysgu ar lefel ysgol yn sgil treialu modelau cynnydd newydd, gan gynnwys sut y mae ysgolion wedi mireinio a gwella eu dulliau gweithredu.
- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro goblygiadau posibl gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddir gan leoliadau a chlystyrau i fonitro cynnydd, yn enwedig wrth ystyried sut i fonitro cynnydd ar lefel genedlaethol.
- Cyfeiriodd uwch arweinwyr yn aml at eu hawydd i gael sicrwydd bod y dulliau y maent yn eu defnyddio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, olrhain cynnydd ac, yn arbennig, asesu yn briodol (ac 'ar y trywydd iawn'). Er bod cydweithio rhwng ysgolion yn cyfrannu rhywfaint at ddarparu sicrwydd, dylai Llywodraeth Cymru

ystyried a oes angen am rôl sy’n darparu her adeiladol allanol i ysgolion (yn enwedig o ran cynnydd ac asesu) yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn o weithredu'r cwricwlwm newydd.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru ac o ddiben yr astudiaeth gwmpasu, gyda'r nod o helpu i gefnogi blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

### Y Cwricwlwm i Gymru

1.2 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar wella ysgolion yng Nghymru *(Improving Schools in Wales 2014)* [1] ac adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson (2015)[2], cyflwynwyd y sail resymegol dros y diwygiadau ynghyd ag argymhellion ynghylch sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol wrthi'n datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol, a fydd yn galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.3 O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae pynciau'n cael eu trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

[1] Improving Schools in Wales: An OECD Perspective (2014)
[2] Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)

1.4 Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull integredig o ddysgu ac addysgu. Mae'n annog cydweithio a chynllunio ac addysgu trawsbynciol i alluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd.

1.5 O dan drefniadau'r cwricwlwm newydd mae ysgolion yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd continwwm dysgu o 3 i 16 oed. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio egwyddorion gorfodol ar gyfer cynnydd o ran y cwricwlwm a'r Meysydd unigol, ynghyd â chamau cynnydd a ategir gan ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dylai'r trefniadau asesu fod yn ffurfiannol, dylent ganolbwyntio ar y dysgwr, a dylid eu defnyddio'n sail i sut y mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau. Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r dull newydd yw bod y cwricwlwm, y trefniadau asesu ac addysgeg yn cael eu gweld fel elfennau o gyfanwaith integredig

1.6 I gefnogi'r diwygiadau i'r cwricwlwm, ceir dull cenedlaethol o ymdrin â gweithgaredd dysgu proffesiynol; ceir trefniadau gwerthuso a gwella newydd; mae'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ym maes anghenion dysgu ychwanegol wedi'u trawsnewid; ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i ysgolion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan gydnabod bod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yn un ailadroddus. Roedd y cyhoeddiad diweddaraf *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm* (2023)[3] yn adeiladu ar ganllawiau cynharach ac yn amlinellu'r camau sy'n gysylltiedig â dylunio'r cwricwlwm, sef:

- **ymgysylltu** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer yr addysgu a'r dysgu sy'n ei gefnogi;
- **dylunio, cynllunio a threialu** – gan ddefnyddio canllawiau a chymorth;
- **gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf**;
- **addysgu am y tro cyntaf**, dechrau rhoi'r cwricwlwm ar waith, gan fyfyrio ar ei effeithiolrwydd dros amser a mireinio'r dyluniad wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

[3] Gweler Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm (llyw.cymru)

1.8 At hynny, amlinellodd Llywodraeth Cymru yr egwyddorion y dylai ysgolion eu dilyn wrth baratoi a dylunio'r cwricwlwm: datblygu **ar y cyd**; **addysgeg** effeithiol; ymgysylltu â **dysgu proffesiynol** a rhwydweithiau; ymgorffori rhinweddau **ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**; gan ystyried y **cyd-destun ysgol ehangach**, gan gynnwys sut y gall y cwricwlwm gefnogi'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cymraeg 2050 a hyrwyddo iechyd a lles y dysgwr.[4]

**Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.**

1.9 Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd sawl adroddiad fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Cynhaliwyd arolwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021 i gasglu gwybodaeth gadarn am barodrwydd lleoliadau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen. Ym mis Ionawr 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r arolwg (Llywodraeth Cymru, 2022a).
- Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022* (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn cyflwyno canfyddiadau 48 o gyfweliadau dilynol ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Diben y cyfweliadau oedd ymchwilio i ymatebion i'r arolwg, deall dyfnder a manylder profiadau ysgolion unigol a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.
- Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2022c). Mae'r adroddiad cwmpasu yn argymell rhaglen gynhwysfawr o ymchwil a gwerthuso ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb i'r argymhellion hyn (Llywodraeth Cymru, 2022d).

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y meysydd gwaith penodol a argymhellir yn yr astudiaeth gwmpasu ac yn anelu at gyhoeddi cynllun gwerthuso manwl yn 2023. Fodd bynnag, er mwyn cynnal dealltwriaeth gyfredol a pharhaus o brofiadau ysgolion a dysgwyr o flynyddoedd cyntaf gweithredu'r cwricwlwm, mae

[4] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* (Llywodraeth Cymru, 2021)

Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r ymchwil cychwynnol hwn, a ddisgrifir yn fanylach isod.

### Ynglŷn â'r astudiaeth

1.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil Arad, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal ymchwil gydag ysgolion a dysgwyr ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru.

1.11 Nod yr ymchwil hwn yw cynnal dau gam ymchwil ansoddol yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23 i ddeall sut y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gweithio ar gyfer ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau, a'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso ei weithrediad llwyddiannus. Nod yr ymchwil yw llywio'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ei roi ar waith i sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl.

1.12 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cyfweliadau ansoddol â 64 o uwch arweinwyr, a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023, mewn perthynas â phrofiadau cynnar eu hysgolion a'u Hunedau Cyfeirio Disgyblion o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Recriwtiwyd y rhai a gyfwelwyd o blith yr ymatebwyr i'r *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu* (Llywodraeth Cymru, 2022b) a gytunodd inni ailgysylltu â nhw, yn ogystal ag uwch arweinwyr ychwanegol na wnaethant gymryd rhan yn y gwaith ymchwil blaenorol hwn.

1.13 Bydd ail adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2023 a fydd yn cynnwys canfyddiadau o ail gam (Cam 2) o gyfweliadau ag uwch arweinwyr, ynghyd â gwaith maes gyda dysgwyr yn yr ysgolion hyn. Bydd Cam 2 hefyd yn cynnwys canfyddiadau o waith maes gydag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023.

1.14 Yn Adran 2 yr adroddiad hwn, cyflwynir y fethodoleg ar gyfer yr ymchwil. Yn Adran 3 rhoddir gwybodaeth am broffil y rhai a gyfwelwyd. Mae adrannau dilynol yn adlewyrchu'r prif bynciau a ddefnyddiwyd i strwythuro'r trafodaethau:

- Yn Adran 4 cyflwynir barn uwch arweinwyr ar y **cynnydd cyffredinol o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd**

- Yn Adran 5 cyflwynir canfyddiadau sy’n ymwneud â chynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn y **Meysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd)**
- Yn Adran 6 cyflwynir sylwadau ar brofiadau lleoliadau o weithredu **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**
- Yn Adran 7 cyflwynir safbwyntiau ar weithredu **ieithoedd rhyngwladol**
- Yn Adran 8 cyflwynir sylwadau'n ymwneud â threfniadau ar gyfer monitro **cynnydd** dysgwyr
- Yn Adran 9 cyflwynir barn uwch arweinwyr ar y trefniadau **asesu**
- Yn Adran 10 cyflwynir profiadau'r rhai a gyfwelwyd o sut y mae'r trefniadau gweithredu yn cefnogi **tegwch a chynhwysiant**
- Yn Adran 11 cyflwynir profiadau'r rhai a gyfwelwyd o **ymgysylltu â rhieni a gofalwyr** i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Amlinellir y casgliadau a'r materion i'w hystyried yn Adran 12.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o ddylunio offeryn ymchwil, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses ddadansoddi, yr heriau a wynebwyd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

**Dyluniad yr offeryn ymchwil**

2.2 Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar gasglu barn uwch arweinwyr ar eu profiadau cynnar o weithredu'r cwricwlwm. Dyluniwyd canllaw cyfweld a oedd yn canolbwyntio ar farn arweinwyr ar:

- y cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r cwricwlwm newydd
- profiadau o ddylunio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn perthynas ag elfennau penodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru[5]
    - cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar draws ac o fewn Meysydd
    - gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
    - gweithredu ieithoedd rhyngwladol
- trefniadau ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr
- trefniadau asesu
- sut y mae gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi tegwch a chynhwysiant
- ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Mae'r canllaw holi ar gyfer y cyfweliadau i'w weld yn Atodiad A.

**Samplu a recriwtio**

2.3 Roedd elfen ganolog o'r ymchwil yn cynnwys adeiladu ar – a gwella – y sampl o leoliadau a gynrychiolir yn yr adroddiad *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022* (Llywodraeth Cymru, 2022b). Cytunwyd ar fframwaith samplu gyda Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar

[5] Bydd tair elfen wahanol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu dewis ar gyfer cyfweliadau Cam 2.

recriwtio 64 o uwch arweinwyr, i gynnwys cymaint â phosibl o’r ymchwil ansoddol blaenorol hwn a’i ategu gydag uwch arweinwyr ychwanegol. Nodir y sampl a gafwyd yn Adran 3 sy'n cyflwyno proffil yr ymatebwyr yn ôl math o leoliad, sector a chyfrwng iaith y lleoliad.

2.4 Cyfwelwyd â chyfanswm o 48 o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn yr ymchwil ansoddol flaenorol (Llywodraeth Cymru, 2022b) ac roeddent wedi cydsynio inni ailgysylltu â nhw. Dim ond uwch arweinwyr (h.y. nid ymarferwyr) o sampl yr astudiaeth flaenorol y cysylltodd y tîm ymchwil â nhw mewn lleoliadau a oedd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Y rhesymeg dros hyn oedd y byddai gan yr uwch arweinwyr hyn ystod eang o wybodaeth ar draws yr ysgol ac y byddent yn gallu rhoi trosolwg o weithrediad y cwricwlwm. Ar y sail hon, cafodd cyfanswm o 13 o ymarferwyr a 7 uwch arweinydd mewn ysgolion uwchradd nad oeddent yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru tan fis Medi 2023 eu heithrio o’r rhestr o'r 48 a gyfwelwyd yn flaenorol a gafodd eu cyfweld. Gwahoddwyd uwch arweinwyr yn y 28 lleoliad arall i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, a chyfwelwyd ag 16 ohonynt (mewn rhai achosion, trefnwyd cyfweliadau ag uwch arweinydd gwahanol yn yr un lleoliad). Recriwtiwyd 48 o uwch arweinwyr ychwanegol i gymryd rhan yn yr ymchwil.

2.5 Gwahoddwyd uwch arweinwyr drwy e-bost i gymryd rhan mewn cyfweliad a oedd yn para tua 45 i 60 munud. Roedd y gwahoddiad yn rhoi trosolwg o’r prif bwyntiau trafod ac yn rhoi’r dewis i uwch arweinwyr wahodd cydweithwyr a oedd yn arwain ar agweddau perthnasol ar y cwricwlwm i ymuno â’r drafodaeth. Gwahoddodd nifer bach o uwch arweinwyr gydweithwyr i ymuno â’r drafodaeth, neu rannau ohoni.

2.6 Bwriedir cynnal ail gam o gyfweliadau â’r sampl o uwch arweinwyr yn ystod haf 2023. Mae’r holl uwch arweinwyr a gymerodd ran yng Ngham 1 wedi cytuno inni ailgysylltu â nhw yn ystod Cam 2. Cynhelir dwy elfen ategol o ymchwil yn ystod Gwanwyn a Haf 2023. Mae'r blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

- grwpiau trafod gyda sampl o ddysgwyr o flynyddoedd 4-7
- gwaith maes gydag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sy’n paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023.

Bydd canfyddiadau'r gwaith maes hwn yn cael eu cynnwys yn adroddiad Cam 2 a gyhoeddir yn ystod Hydref 2023.

### Dadansoddiad ansoddol

2.7 Defnyddiwyd dull fframwaith i ddadansoddi data'r cyfweliadau ansoddol. Mae hyn yn caniatáu inni gynnal dadansoddiad strwythuredig o'r data yn ogystal ag ystyried materion a ddaeth i'r amlwg o'r data ei hun ac nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen o bosibl. Adolygwyd y dystiolaeth i ddechrau yn ystod sesiwn friffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y cyfweliadau. Fe wnaeth hyn alluogi'r ymchwilwyr i ddod i gytundeb ar y themâu allweddol sy'n deillio o'r dystiolaeth, a fu'n sail i'r dadansoddiad dilynol.

### Heriau a chyfyngiadau methodolegol

2.8 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o'r heriau a wynebwyd yn ystod y gwaith maes.

2.9 Dyluniwyd y sampl bwriadus o 64 o ysgolion i gynnwys ystod ddigonol o ysgolion (yn ôl cyfrwng iaith a sector) er mwyn cael trawstoriad da o safbwyntiau a phrofiadau. Nid pwrpas ymchwil ansoddol yw sicrhau cynrychiolaeth lawn ond yn hytrach caniatáu i ystod eang o faterion gael eu nodi, a chaniatáu trafodaeth ddyfnach. Fodd bynnag, nid yw'r sampl yn ein galluogi i adrodd ar arwyddocâd ystadegol y canfyddiadau na chyffredinoli'r canlyniadau i'r boblogaeth. Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd wrth ddethol y sampl o ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil. Gallai lleoliadau a oedd wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill gyda'u gweithgareddau paratoi fod wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliadau.

## 3. Proffil yr ymatebwyr

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu proffil y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol. Fel y nodwyd yn Adran 2, mabwysiadwyd dull bwriadus o ddewis y sampl i sicrhau bod yr ymchwil yn ymchwilio i farn y rhai a oedd yn cytuno bod eu lleoliad mewn sefyllfa dda i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn teimlo felly. Nid oedd bwriad i'r sampl felly fod yn gynrychioliadol o boblogaeth lleoliadau na'r ymatebwyr i'r arolwg o ran eu barn ar eu paratoadau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

### Proffil y rhai a gyfwelwyd

3.2 Cyfwelwyd â chyfanswm o 64 o uwch arweinwyr. Roedd y rhain yn cynnwys 42 o gyfweleion o ysgolion cyfrwng Saesneg ac 14 o ysgolion cyfrwng Cymraeg.[6] Mae proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl math o leoliad a chyfrwng (Tabl 1), a rhanbarth (Tabl 2) y lleoliad i'w weld isod.

**Tabl 1. Proffil y sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng ieithyddol**

| Sector | Canran y sampl o'r 64 a gyfwelwyd ym mhob categori | | | | Y nifer a gyfwelwyd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg | DDI* | Cyfanswm | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg | DDI* | Cyfanswm |
| Cynradd a meithrin** | 8% | 38% | 0% | 45% | 5 | 24 | | 29 |
| Ysgolion pob oed (Canol) | 3% | 3% | 0% | 6% | 2 | 2 | | 4 |
| Uwchradd*** | 11% | 25% | 0% | 36% | 7 | 16 | | 23 |
| Ysgolion arbennig | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 6% | 6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 4 | 4 |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 6% | 6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | 22% | 66% | 13% | 100% | **14** | **42** | **8** | **64** |

*DDI - Dim dosbarthiad iaith.
**Mae'r categori cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a throsiannol.
***Mae'r categori uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwyieithog.

[6] Gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd dwyieithog dwy ffrwd ac ysgolion pob oed (3-16/3-19). Roedd pedwar o'r rhai a gyfwelwyd yn dod o ysgolion arbennig a phedwar o UCDau, sydd ill dau yn lleoliadau nad ydynt yn cael eu dosbarthu yn ôl iaith.

**Tabl 2. Proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth daearyddol | Nifer yn y sampl | Canran yn y sampl |
|---|---|---|
| Y gogledd | 14 | 22% |
| Canol y De | 16 | 25% |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | 17 | 27% |
| Y De-ddwyrain | 17 | 27% |
| **Cyfanswm** | **64** | **100%** |

## 4. Y cynnydd cyffredinol o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â chynnydd cyffredinol wrth roi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith. Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd sut y byddent yn crynhoi cynnydd eu lleoliad wrth weithredu'r cwricwlwm newydd a gofynnwyd cwestiynau iddynt ynghylch:

- beth oedd wedi gweithio'n dda a pham
- beth oedd wedi cefnogi cynnydd eu lleoliad
- beth sydd heb weithio cystal hyd yma
- a oeddent wedi wynebu unrhyw rwystrau i gynnydd hyd yma.

4.2 Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau uwch arweinwyr ar y cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu eu cwricwlwm newydd. Caiff y pwyntiau cyffredinol a wnaed gan uwch arweinwyr eu cynnwys yn yr is-adran gyntaf, a threfnir y canfyddiadau yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd. Cyflwynir gwahaniaethau barn yn ôl y math o ysgol (cynradd, uwchradd, lleoliadau eraill) ac iaith (ysgolion cyfrwng Cymraeg, Saesneg) yn yr ail is-adran.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

4.3 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn fodlon ar y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud hyd yma gyda dylunio a gweithredu eu cwricwlwm.** Mewn ambell achos, dywedodd yr uwch arweinwyr eu bod wedi bod yn bryderus ynglŷn â maint y dasg a oedd o'u blaenau, ond eu bod bellach yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd da. Roedd cydnabyddiaeth ymysg uwch arweinwyr bod y diwygiadau i'r cwricwlwm yn broses barhaus a fydd yn cymryd blynyddoedd i'w hymgorffori yn eu lleoliad. Amlygodd uwch arweinwyr hefyd eu gweithgareddau gwerthuso ac adolygu parhaus a fyddai'n eu cefnogi i fireinio dyluniad a chyflwyniad eu cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod a thu hwnt.

> 'Rydym yn ei roi ar waith - rydym yn blês gydag e'. Fel gyda phopeth, mae angen inni ei werthuso. Rydym yn cynnal cyfarfodydd ar y cwricwlwm yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar ailystyried addysgeg. Sut olwg ddylai fod ar ddysgwyr? Sut rydyn

ni'n mynd i asesu hynny, drwy gynllunio am yn ôl?' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

'I ddechrau, roedd e'n [y Cwricwlwm i Gymru] frawychus, ond nawr rydyn ni'n ei weld fel ffordd o wneud y plant yn fwy brwdfrydig ynglŷn â dysgu. Mae'n cyflwyno plant i fwy o bethau a fydd yn cyfoethogi eu profiad dysgu. Roedd angen inni roi'r gorau i fod yn ansicr ynghylch a ydym yn gwneud pethau'n iawn ai peidio.' Ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

4.4 **Dywedodd uwch arweinwyr fod eu staff yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth gynyddol dros weithredu'r cwricwlwm, a bod mwy o ymdeimlad o ymreolaeth ymysg ymarferwyr yn dod i'r amlwg ymhlith eu gweithlu.** Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith uwch arweinwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022) yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22. Er bod uwch arweinwyr yn parhau i adrodd bod rhai aelodau o staff yn ansicr a bod angen sicrwydd arnynt ynghylch eu dulliau gweithredu, dywedwyd hefyd bod eu staff yn cydnabod ac yn croesawu fwyfwy yr hyblygrwydd a gynigir gan y Cwricwlwm i Gymru. Cyfeiriodd uwch arweinwyr at enghreifftiau o sut yr oedd hyn yn galluogi eu lleoliadau i ddarparu cwricwlwm cyfoethocach, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gyda mwy o ffocws ar les.

'Athrawon sy'n cario'r holl gyfrifoldeb. Rhai pobl yn meddwl gewn ni 'tick sheet' ar rhyw ben. Dwi'n meddwl bod y ffaith na nhw [athrawon] sy'n cael penderfynu be i ddysgu yn dechrau sincio mewn, er bod rhai yn teimlo'n ansicr'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

'Mae'r staff wedi cael eu bywiogi i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a chymryd perchnogaeth o sut y maent am iddo edrych o fewn eu hadrannau.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

4.5 **Soniodd uwch arweinwyr am ffocws cynyddol ar addysgeg wrth grynhoi eu cynnydd cyffredinol gyda rhoi eu cwricwlwm ar waith.** Pwysleisiodd uwch arweinwyr bwysigrwydd adolygu, ailfeddwl a chryfhau eu dulliau addysgu a dysgu a newid eu ffocws o 'beth maen nhw'n ei addysgu' i 'sut maen nhw'n addysgu'. Soniodd uwch arweinwyr am bwysigrwydd 'newid meddylfryd' ymhlith ymarferwyr yn eu lleoliadau, fel ffactor alluogi ac fel her i'w goresgyn. Teimlai uwch arweinwyr eu bod yn gwneud cynnydd o ran ymgorffori'r newid hwn mewn diwylliant ymhlith ymarferwyr ac roeddent yn ystyried bod hyn yn ffactor pwysig o ran gwireddu gweledigaeth eu lleoliad ar gyfer y cwricwlwm.

'Y newidiadau i addysgeg yw'r newid mwyaf o ganlyniad i'r cwricwlwm newydd, yn hytrach na'r newid i'r cynnwys. Mae hwn i'w groesawu... ...mae'r dystiolaeth yn dangos mai addysgeg sy'n cael mwyaf o effaith ar safon y dysgu ac addysgu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

'Yr her fu ennill calonnau a meddyliau athrawon i sicrhau bod y newidiadau'n digwydd. Mae cael tîm o staff brwdfrydig i yrru hyn yn ei flaen wedi bod yn ganolog.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

4.6 **Ystyriwyd bod gweithgarwch cydweithredol mewn ysgolion a'u clystyrau yn datblygu'n dda, yn enwedig ar lefel ymarferwyr.** Roedd tystiolaeth o weithgarwch helaeth rhwng ysgolion, gydag uwch arweinwyr yn cyfeirio at gyfarfodydd clwstwr rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal yn cynnwys uwch arweinwyr, ymarferwyr ac, yn achlysurol, staff cymorth. Dywedwyd bod y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau megis datblygu gweledigaeth clwstwr neu ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn Meysydd penodol (gweler Adrannau 5 ac 8)**.** Teimlai uwch arweinwyr fod gweithgarwch y clwstwr yn fuddiol o ran rhoi sicrwydd iddynt am eu dulliau gweithredu; fodd bynnag, mynegodd uwch arweinwyr hefyd rywfaint o ansicrwydd ynghylch a oedd eu dull o ymdrin â gweithgarwch clwstwr yn cynrychioli arfer da ac roeddent yn teimlo y byddai adborth o’r tu allan i’w clwstwr (e.e. gan gonsortia addysg rhanbarthol neu Estyn) yn fuddiol.

'Rydym yn gwahodd ysgolion clwstwr eraill i ddod i weld yr ymarfer sydd ar waith yma. Rydym wedi creu gweledigaeth clwstwr gyda'n gilydd ac mae gennym flaenoriaeth datblygu sy'n gyson ar draws yr holl ysgolion. Rydym wedi bod yn gweithio ar broffiliau dysgu, a sut beth yw addysgu a dysgu da. Dwi ddim yn meddwl bod hynny wedi bod yn wir o'r blaen. Felly rwy'n meddwl bod y cwricwlwm yn sicr wedi cryfhau ein perthynas waith ag ysgolion y clwstwr.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

4.7 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at heriau o ran rheoli capasiti staff a’r amser sydd ei angen i ddatblygu a gweithredu cwricwlwm eu lleoliad.** Soniodd uwch arweinwyr am heriau o ran rhyddhau staff i fynychu cyfarfodydd, trefnu staff cyflenwi a sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer hyn. Pwysleisiodd uwch arweinwyr yr angen i reoli’n ofalus faint o wybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru yr oeddent yn gofyn i’w staff ei darllen a’i dirnad. Teimlai uwch arweinwyr fod gormod o wybodaeth ar gael i'w staff ei darllen i gyd a disgrifiwyd eu hymdrechion i 'ddistyllu' a 'bwydo gwybodaeth fesul tipyn' er mwyn rheoli capasiti staff a sicrhau eu lles.

'Ni'n gweithio gyda'r clwstwr ond mae'r ymrwymiad amser yn anodd, i ffeinidio'r staff [sy'n gallu mynd i gyfarfodydd]. Y pryder yw bod dim digon o amser i staff

> gynllunio y cwricwlwm. Mae un diwrnod hyfforddiant [mewn swydd] arall ddim yn ddigon. Mae gymaint o waith i neud, ac mae cael amser i ystyried yn bwysig'. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

4.8 **Disgrifiodd uwch arweinwyr eu prosesau ar gyfer cynllunio cynnwys eu cwricwlwm a sicrhau ei fod yn cynnwys yr agweddau gofynnol ar y Cwricwlwm i Gymru.** Roedd hyn yn cynnwys lleoliadau a oedd wedi mabwysiadu dull thematig neu ddull yn seiliedig ar bwnc o gynllunio’r cwricwlwm a phrosesau lleoliadau o fapio elfennau o’r cwricwlwm, fel themâu a sgiliau trawsbynciol, yn erbyn cynnwys eu cwricwlwm. Disgrifiwyd y broses fapio hon fel rhan bwysig o gynllunio o fewn lleoliadau i sicrhau eu bod yn ymdrin yn ddigonol ag elfennau o’r cwricwlwm. Soniodd y rhai a gyfwelwyd yn aml am yr her o sicrhau bod eu cwricwlwm yn 'cwmpasu'n' ddigonol yr holl elfennau a nodir yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Disgrifiodd ambell uwch arweinwyr sut yr oedd y broses hon wedi datgelu maint y dasg iddynt a nifer yr elfennau yr oedd yn rhaid iddynt eu cynnwys yn eu cwricwlwm.

> 'Mae mwy yn y cwricwlwm hwn na'r hen un mewn gwirionedd. Er bod gennym ni fwy o ryddid 'mewn egwyddor' i'w ddylunio ein hunain, mae yna lawer o bethau y mae'n rhaid inni eu cynnwys - felly mae ychydig fel [ceisio] rhoi darn 50 ceiniog mewn slot ceiniog'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

4.9 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at y ffaith bod eu lleoliad yn casglu barn dysgwyr a rhieni yn gynyddol yn ogystal ag, ar brydiau, y gymuned ehangach (e.e. cyflogwyr) i lywio dyluniad eu cwricwlwm.** Cyfeiriodd uwch arweinwyr at enghreifftiau o ddefnyddio’r math hwn o dystiolaeth wrth gynllunio testunau, themâu a chynnwys eu cwricwlwm.

4.10 **Soniodd uwch arweinwyr am weithgaredd dysgu proffesiynol yr oeddent hwy neu eu staff wedi manteisio arno a oedd yn canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm.** Cafodd y math hwn o ddysgu proffesiynol ei groesawu ar y cyfan gan y rhai a soniodd amdano, er bod rhai yn teimlo ei fod yn fwy cyffredinol nag y byddent wedi'i hoffi ar hyn o bryd (e.e. yn canolbwyntio ar egwyddorion dylunio) a theimlai eraill y byddai wedi bod yn fwy buddiol cymryd rhan yn y math hwn o weithgaredd dysgu proffesiynol yn gynharach yn y broses gynllunio.

4.11 **Mynegodd uwch arweinwyr yr angen am sicrwydd gan ffynonellau allanol eu bod 'ar y trywydd iawn'.** Er bod rhai lleoliadau wedi cael eu harolygu gan Estyn yn ddiweddar a rhai wedi cael adborth gan eu Consortiwm Addysg Rhanbarthol, esboniodd uwch arweinwyr eu bod yn aml yn dibynnu ar farn uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn eu clwstwr i gael adborth ar eu dull gweithredu. Roedd ansicrwydd ynghylch natur trefniadau atebolrwydd a chymwysterau ysgolion yn y dyfodol, o ran sut y gallai cynnwys manylebau ddylanwadu ar arferion addysgu a sut y gellir defnyddio data sy'n seiliedig ar gyflawniad yn y dyfodol, yn destun pryder ymhlith rhai uwch arweinwyr.

> 'Mae'r syniad y tu ôl i'r Cwricwlwm i Gymru yn gyffrous, ond mewn gwirionedd, mae athrawon yn hoff iawn o sgaffaldiau. Yr effaith yw bod yr ysgol yn creu ei sgaffaldiau ei hun, heb wybod beth mae ysgolion eraill yn ei wneud, mae llawer o'r athrawon yn amheus ac yn nerfus - maen nhw'n ei dreialu ac yn dysgu ond mae llawer o ansicrwydd anghyfforddus.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg

> 'Rydym yn poeni y bydd Estyn yn meddwl ein bod ni'n gwneud pethau'n anghywir'. Uwch arweinydd, Ysgol arbennig

> 'Y prif anhawster yw sut olwg fydd ar TGAU a Safon Uwch – os yw'r rhain yn mynd i aros yr un fath, yna byddwn yn dychwelyd at yr hen drefn i gyd-fynd â hyn'. Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

4.12 **Teimlai uwch arweinwyr eu bod ar gam cynnar o ran cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm.** Nododd uwch arweinwyr fod gwaith cydweithredol yn ymwneud â'r cwricwlwm yn ei ddyddiau cynnar yn eu clwstwr hwy. Roedd rhai uwch arweinwyr yn teimlo bod angen mwy o gymorth arnynt, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd ac asesu (Gweler adrannau 8 a 9), ac roedd nifer fach yn pryderu am y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud hyd yma.

### Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad

4.13 **Amlygwyd heriau'n gysylltiedig â 'newid meddylfryd' yr holl ymarferwyr yn eu lleoliad gan uwch arweinwyr mewn lleoliadau mwy, yn enwedig y rhai mewn ysgolion uwchradd mwy o faint.** Roedd uwch arweinwyr yn ystyried bod hyn yn un o heriau lledaenu gwybodaeth a sicrhau dealltwriaeth gyffredin ymhlith gweithlu mawr, yn enwedig yng nghyd-destun cwricwlwm sy'n esblygu'n barhaus. Ymddengys fod hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau'r ymchwil ansoddol ar baratoadau ar gyfer diwygiau cwricwlwm ac asesu 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022) a ganfu fod

rhai ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd wedi nodi nad oeddent yn ymwybodol o’r holl weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn eu hysgol. Teimlai rhai uwch arweinwyr uwchradd ei bod yn fwy heriol newid meddylfryd, gan gynnwys newid meddylfryd dysgwyr a rhieni, mewn lleoliadau uwchradd oherwydd y ffocws ar ennill cymwysterau.

> 'Yr her yw newid meddylfryd staff sydd wedi arfer â'r hen ffordd o weithio.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

4.14 **Amlygodd uwch arweinwyr mewn ysgolion llai yr heriau o sicrhau bod ganddynt gapasiti ac amser i gynllunio a dylunio eu cwricwlwm.** Yn y lleoliadau hyn, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gyfeirio at anawsterau o ran rhyddhau staff o’u cyfrifoldebau addysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dylunio a chydweithio (e.e. cyfarfodydd clwstwr neu rwydwaith, gweithgaredd dysgu proffesiynol). Mae hyn yn awgrymu bod manteisio ar y math o weithgareddau sy’n cefnogi newid y cwricwlwm yn fwy o her mewn lleoliadau llai.

4.15 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn gwerthfawrogi’n arbennig yr hyblygrwydd a’r annibyniaeth gynyddol a gynigir gan y Cwricwlwm i Gymru.** Yn y lleoliadau hyn, tynnodd uwch arweinwyr sylw at bwysigrwydd canolbwyntio ar iechyd a lles dysgwyr a chyfleoedd dysgu drwy brofiad gan gyfeirio at enghreifftiau o sut yr oedd y Cwricwlwm i Gymru wedi eu galluogi i gyflawni hyn.

> 'Rhywbeth rydyn ni wedi gorfod ei wneud erioed mewn ysgolion arbennig yw bod yn greadigol. A dyna lle mae'r cwricwlwm newydd yn gwneud rhyfeddodau i ni mewn gwirionedd. Achos rydyn ni wastad wedi gorfod bod yn greadigol. Felly nid yw'n ddim byd newydd i ni.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

> 'Mae gennym lawer o ddysgwyr â phrofiadau allanol cyfyngedig ac mae gennym ryddid nawr i roi mwy o amrywiaeth iddynt a'u cyflwyno i addysgu mwy ymarferol - mae gweithgareddau ymarferol a gwibdeithiau yn cael effaith barhaol arnynt. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r hyblygrwydd inni ganolbwyntio ar y plentyn a sut i wneud dysgu'n briodol iddyn nhw a'i gyflwyno mewn ffordd sydd fwyaf addas iddyn nhw.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

## 5. Cynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o **ddylunio a gweithredu’r cwricwlwm ar draws ac o fewn y meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)** Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- a oedd y trefniadau'n gweithio'n effeithiol neu yn ôl y disgwyl
- a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau
- a oedd angen cymorth ychwanegol o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau, cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol).

5.2 Mae’r adrannau canlynol yn crynhoi'r sylwadau ar weithredu'r cwricwlwm ar draws meysydd dysgu a phrofiad gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill. Fel yn yr adran flaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

5.3 **Disgrifiodd uwch arweinwyr ddull eu lleoliadau o fapio elfennau o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn erbyn pob un o’r Meysydd i sicrhau ‘cwmpas’ digonol ac i osgoi ailadrodd lle bo modd.** Roedd hyn yn cynnwys mapio cynnwys datganiadau o’r hyn sy’n bwysig, disgrifiadau dysgu a themâu trawsgwricwlaidd a sgiliau yn erbyn y Meysydd i sicrhau bod pob agwedd yn cael sylw digonol yn eu cwricwlwm.

> 'Mae cwmpas yn ystyriaeth fawr. Mae ein harweinwyr MDPh (Maes dysgu a phrofiad) yn cynllunio’r cwricwlwm o’r meithrin i Flwyddyn 6, gan edrych ar y cwmpas ar draws eu Hardaloedd. Byddant yn mynd drwy'r holl bethau hynny [elfennau o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru] i sicrhau eu bod yn cael eu cwmpasu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> ‘Mae mapio yn bwysig i ni weld a mesur lle mae mwy o’n sylw ni'n mynd; mae’n ddull pwysig i bwyso beth sy’n bwysig. Ni’n gweld hi’n anodd bod y chwech maes

> dysgu yn cael tegwch o ran amser; mae gymaint o bwyslais ar rifedd, a digidol, ond dwi'n poeni fod na ddim digon o amser i neud Gwyddoniaeth'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

> 'Fe wnaethon ni fapio'r holl bynciau ar draws Blynyddoedd 7 i 9 – fe wnaethon ni ddarganfod ein bod ni'n gwneud llawer o waith ar ryfeloedd, yn enwedig y Rhyfel Byd Cyntaf. Edrychon ni ar achosion o ailadrodd mewn Saesneg, Hanes, Drama, Celf i weld...ble y gallwn ni newid pethau neu sicrhau cynnydd ac edrych ar fwy o ehangder a dyfnder, er enghraifft drwy edrych ar wareiddiad. Rydyn ni eisoes wedi addasu pethau er mwyn sicrhau bod llai o ailadrodd.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.4 **Dywedodd lleoliadau eu bod yn mabwysiadu dulliau amrywiol o gynllunio eu cwricwla a sicrhau cysylltiadau rhwng pynciau a Meysydd.** Rhoddodd uwch arweinwyr enghreifftiau o grwpiau blwyddyn gyfan neu Feysydd penodol yn mabwysiadu dull thematig neu ddull yn seiliedig ar bwnc i geisio gwneud cysylltiadau mwy ystyrlon rhwng meysydd pwnc, ac i wneud y rhain yn fwy eglur i ddysgwyr. Roedd y pynciau neu'r themâu hyn yn aml yn seiliedig ar gwestiynau allweddol yr oeddent yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn ystod tymor penodol neu roeddent yn gysylltiedig â phrosiectau neu brofiadau yr oeddent wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr. Mewn rhai lleoliadau, nid oedd uwch arweinwyr wedi mabwysiadu dull thematig neu ddull yn seiliedig ar bynciau ond serch hynny roeddent yn ceisio nodi cysylltiadau penodol rhwng pynciau penodol mewn gwahanol feysydd pwnc. Mewn ambell achos, roedd lleoliadau wedi datblygu 'mapiau cysyniad' fel ffordd o gofnodi'r ffyrdd yr oedd sgiliau a syniadau'n cael eu cyflwyno mewn gwahanol bynciau ac ar wahanol gamau dysgu.

> 'Ni'n trio adeiladu ar draws pynciau, felly gwybod pan mae un pwnc yn gwneud testun, fel bod pynciau eraill yn gallu adeiladu ar hynny gyda chysylltiadau go iawn; nid o reidrwydd dysgu ar yr un pryd ond adeiladu cysylltiadau.' Ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg

> 'Mae dilyniannu dysgu mor bwysig i sicrhau bod dysgwyr yn dirnad gwybodaeth, mae angen i hyn ddigwydd cyn inni wneud y cysylltiadau rhyngddisgyblaethol hyn. Mae sut rydym yn gwneud hyn yn her. Rydym yn creu mapiau o'r cwricwlwm i nodi cysylltiadau ar draws yr adrannau.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.5 **Roedd mapio cynnydd o fewn Meysydd yn ffocws mewn sawl lleoliad, gydag uwch arweinwyr yn disgrifio sut roedd gweithgarwch clwstwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.** Teimlai uwch arweinwyr fod mapio cynnydd o fewn, ac ar draws, Meysydd yn ffocws allweddol yn

eu gweithgaredd dylunio ac yn bwysig ar gyfer sicrhau bod eu cwricwlwm yn gydlynol. Disgrifiodd uwch arweinwyr sut yr oedd y broses hon yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod sgiliau a chysyniadau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd ddilyniannol (e.e. sicrhau bod sgiliau creu graffiau yn cael eu cynnwys mewn Mathemateg cyn eu cyflwyno mewn Gwyddoniaeth). Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau lleoliadau sy'n ymwneud â chynnydd yn Adran 8.

> 'Fe wnaethom roi popeth ar y bwrdd a nodi cysylltiadau rhwng yr holl MDPh a gwneud popeth yn gronolegol, gan sicrhau bod popeth yn gyson. Er enghraifft, sicrhau nad oedd neb yn dysgu sut i wneud graffiau cyn iddynt ddysgu gwneud hynny mewn Mathemateg i ddechrau.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.6 **Dywedodd uwch arweinwyr fod mwy o gydweithio rhwng disgyblaethau pwnc o fewn lleoliadau.** Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd Meysydd rheolaidd i staff mewn lleoliadau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnwys y cwricwlwm a chynnydd ymhlith staff o wahanol ddisgyblaethau pwnc. Mewn llawer o achosion, roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu harwain gan arweinwyr Maes penodedig. Dywedodd uwch arweinwyr hefyd fod cyfarfodydd clwstwr ar Feysydd yn cael eu cynnal, a oedd yn cynnwys arweinwyr Maes a staff eraill; cyfarfodydd tymhorol oedd y rhain fel arfer, er i rai ddweud eu bod yn cael eu cynnal yn amlach. Roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod y mathau hyn o gyfarfodydd yn bwysig o ran meithrin ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith ymarferwyr ac o ran rhoi rhywfaint o sicrwydd allanol ar weithgareddau dylunio a gweithredu o fewn lleoliadau (e.e. drwy rannu syniadau a phrofiadau, cael adborth gan gymheiriaid a dysgu oddi wrth ei gilydd ).

> 'Mae gan bob MDPh 'Arweinydd Maes' – ers y cychwyn cyntaf. Mae staff yn dal i weithio mewn disgyblaethau pwnc ond yn cyfarfod yn amlach fel MDPh nag fel pynciau.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

> 'Rydym wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer MDPh i drafod themâu trawsgwricwlaidd. Mae'r rhain wedi bod ar y calendr ers dwy flynedd sy'n sicrhau cydweithio. I ddechrau roedd pobl yn meddwl ar sail prosiectau ond yn raddol sylweddolodd pobl nad oedd hyn yn wir. Mae'n ymwneud yn fwy â sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar draws yr MDPh hwnnw.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.7 **Roedd amrywiadau o ran y Meysydd ble roedd uwch arweinwyr yn ystyried eu bod yn gwneud cynnydd da o ran dylunio a gweithredu eu cwricwlwm.**

- Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o ddweud bod cynnydd da wedi'i nweud o ran gweithredu’r cwricwlwm yn y Meysydd **Iechyd a Lles** a **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** o gymharu â Meysydd eraill.
- Roedd uwch arweinwyr yn tueddu i nodi bod cynnydd da wedi’i wneud o ran gweithredu'r **Dyniaethau**, er bod enghreifftiau hefyd lle y dywedodd uwch arweinwyr nad oedd hyn wedi datblygu cystal ag y gobeithiwyd.
- Roedd uwch arweinwyr yn tueddu i bwysleisio ymdrechion eu lleoliad i sicrhau bod sgiliau a ddatblygir mewn **Mathemateg a Rhifedd** yn cael eu hintegreidido'n effeithiol i Feysydd eraill (e.e. dadansoddi data arbrofion Gwyddoniaeth yn ystod gwersi Mathemateg). Roedd uwch arweinwyr yn cyfeirio at y Maes hwn fel arfer wrth ddisgrifio eu prosesau cynllunio a 'mapio cysyniad'.
- Roedd barn gymysg ynghylch cynnydd yn y Meysydd **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** a'r **Celfyddydau Mynegiannol**. Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o nodi bod cynnydd wedi bod yn arafach, neu’n fwy heriol, yn y Meysydd hyn o gymharu â'r Meysydd eraill. Fodd bynnag, roedd lleoliadau hefyd lle roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod cynnydd da wedi’i wneud yn y Meysydd hyn.

'Mae angen lle ar Fathemateg a rhifedd i sefyll ar eu pen eu hunain tra bod y Dyniaethau'n dod at ei gilydd yn fwy naturiol. Mae pynciau sy’n fwy hierarchaidd eu natur, fel Mathemateg, yn fwy anodd eu hailwampio mewn strwythur gwahanol - mae angen gwybodaeth benodol arnoch i fynd o un cam i’r llall, fel teithio ar hyd map o'r tiwb. Mae hanes ychydig yn debycach i jig-so, gallwch greu'r darlun mewn gwahanol ffyrdd ac mewn trefn wahanol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

‘Ni di cadw at bynciau unigol o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg ond mae mwy o gydweithio. Mae’n faes anoddach oherwydd yr angen i ffocysu ar ddealltwriaeth ffeithiol cyn deall y cysyniadau a’r cyswllt rhyngddynt.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

5.8 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran sicrhau capasiti staff i gymryd rhan mewn sesiynau cynllunio ar y cyd a gweithgarwch clwstwr.** Roedd y materion hyn yn adlewyrchu'r rhai a drafodwyd yn Adran 4.7.

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

5.9 **Roedd lleoliadau wedi gwneud addasiadau i'w hamserlenni i ganolbwyntio ar Feysydd penodol, ac i roi mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng pynciau.** Roedd enghreifftiau'n cynnwys neilltuo hanner diwrnod yr wythnos yn eu hamserlen i wersi a oedd yn canolbwyntio ar Iechyd a Lles neu'r Celfyddydau Mynegiannol.

5.10 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio dull dilyniannol o ddylunio eu cwricwlwm.** Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm mewn un Maes yn gyntaf, cyn adolygu'r broses a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i Feysydd eraill.

5.11 **Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr fod angen mwy o gymorth arnynt, bod y sesiynau dysgu proffesiynol a gawsant yn rhy gyffredinol neu fod gormod o wybodaeth ar gael.** Roedd y materion hyn yn debyg i'r rhai a nodir yn adrannau 4.11 a 4.12.

> 'Mae'r consortiwm bob amser ychydig gamau y tu ôl i'r ysgolion. Erbyn i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, mae'r ysgolion eisoes wedi symud ymlaen i'r cam nesaf neu wedi rhoi cynnig ar rywbeth yn barod.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.12 **Dywedodd ambell uwch arweinydd fod eu hysgol/lleoliad yn dal ar gam cynnar o ran dylunio a gweithredu'r cwricwlwm.**

**Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad**

5.13 **Roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol nag ysgolion uwchradd o fod wedi mabwysiadu dull o gynllunio eu cwricwlwm sy'n seiliedig ar thema neu bwnc.** Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod cynllunio yn y modd hwn yn broses fwy 'organig' mewn ysgolion cynradd, lle roedd y staff yn fwy cyfarwydd â gweithio'n integredig ar draws gwahanol Feysydd. Ystyriwyd felly bod hyn yn fwy ymarferol a hylaw iddynt.

5.14 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio elfennau mapio gweithgarwch y Cwricwlwm i Gymru yn erbyn eu cwricwla eu hunain.** Roedd hyn yn adlewyrchu dull mwy integredig o gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd, o gymharu ag ysgolion uwchradd.

5.15 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o grybwyll bod athrawon yn gweithio gyda chydweithwyr o ysgolion eu clwstwr gan ganolbwyntio ar gynlluniau ar gyfer Meysydd penodol o'r cwricwlwm.**

5.16 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o nodi eu bod wedi parhau i ganolbwyntio ar ddisgyblaethau pwnc yn eu hysgol, yn hytrach nag addasu eu strwythur i fodel yn seiliedig ar Faes neu gyfadran.** Dywedodd uwch arweinwyr mai'r prif resymau am hyn oedd yr awydd i barhau i fanteisio ar arbenigeddau pwnc ymarferwyr (i gefnogi dysgwyr yn well) a hefyd amharodrwydd i symud tuag at drefniadau nad ydynt efallai'n adlewyrchu'r gyfres o gymwysterau i'r rhai 16 oed ac ôl-16. Er bod uwch arweinwyr uwchradd wedi nodi bod mwy o gynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng arweinwyr adrannol a staff, adroddwyd bod eu dull o gynllunio a dylunio'r cwricwlwm yn llai integredig nag mewn ysgolion cynradd.

5.17 **Roedd uwch arweinwyr uwchradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o gyfeirio at eu cynnydd neu heriau'n ymwneud â Meysydd penodol.** Disgrifir y rhain fesul Maes yn adran 5.7 uchod.

> 'Mae athrawon yn dal i addysgu Mathemateg a Chymraeg ar wahân. Mae llawer o fodelau y maent wedi'u mabwysiadu wedi'u cynnwys mewn grwpiau MDPh. Mae athrawon gwyddoniaeth a thechnoleg mor awyddus i addysgu'r rheini mewn ffordd benodol nes eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd cynnwys y dyniaethau. Mae'n newid mawr mewn diwylliant.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

5.18 **Croesawodd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion y ffocws ar les dysgwyr a'r hyblygrwydd i weithio ar draws Ardaloedd.** Fodd bynnag, cyfeiriodd unedau cyfeirio disgyblion llai hefyd at heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran cynllunio ar draws gwahanol feysydd oherwydd nad oedd ganddynt arbenigwyr pwnc yn eu lleoliad bob amser.

## 6. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

6.1 Mae’r adran hon yn amlinellu canfyddiadau’r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o **weithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn trefniadau cwricwlwm newydd eu hysgol neu'u lleoliad.** Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- sut y mae lleoliadau wedi dechrau gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- a oedd y trefniadau'n gweithio'n effeithiol neu yn ôl y disgwyl
- a yw lleoliadau wedi wynebu unrhyw heriau hyd yma
- a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol i roi’r agwedd hon ar y cwricwlwm ar waith.

6.2 Mae’r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill ar weithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

6.3 **Ni nododd llawer o leoliadau bod rhieni a gofalwyr wedi codi pryderon ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a hynny weithiau er iddynt ragweld y gallai fod problemau**. Amlygodd y rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd cyfathrebu tryloyw ac agored, a rhannu gwybodaeth ac adnoddau penodol yn ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ymhellach, canfu rhai ysgolion fod integreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i feysydd eraill o'r cwricwlwm yn fuddiol i leddfu pryderon rhieni.

> 'Fe wnaethom gynnal gweithdy i rieni a gafodd ei groesawu'n frwd. Cafodd yr adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu dangos i rieni, ac nid ydym wedi cael unrhyw broblemau heblaw am sylwadau cychwynnol. Y cyfan y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei wneud yw dwyn ynghyd yr elfennau a oedd eisoes yn cael eu haddysgu cyn y newidiadau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Nid ydym wedi cael unrhyw broblemau penodol gyda datblygu hyn gan rieni. Rydym wedi ei integreiddio ag elfennau eraill – fel arolwg o Iechyd a Lles. Mae'n ymddangos bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael ei dderbyn gan y rhieni.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

6.4 **Dywedodd llawer o leoliadau eu bod yn defnyddio deunyddiau o ffynonellau allanol i lywio ac arwain y gwaith o ddylunio, cynllunio a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**. Yn fwyaf cyffredin, roedd hyn yn golygu prynu adnoddau gan ddarparwyr trydydd parti, megis Jigsaw a Ten Ten (a ddefnyddir gan rai ysgolion ffydd). Nid oedd yn ymddangos bod ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion yn prynu deunyddiau allanol. Roedd hyn i'w weld yn fwy cyffredin ymysg ysgolion cynradd, a dim ond mewn un ysgol arbennig y gwelwyd hyn. Cafwyd adnoddau allanol eraill gan yr awdurdod lleol neu rwydwaith clwstwr. Er bod nifer o uwch arweinwyr wedi dweud bod y newidiadau o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyd-fynd yn agos â'r ddarpariaeth sydd eisoes ar waith mewn gwirionedd, roedd yn ymddangos bod llawer yn awyddus i gael cymorth a sicrwydd ynghylch eu dulliau gweithredu drwy gaffael a defnyddio'r adnoddau hyn gan drydydd partïon. Roedd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio fframweithiau a oedd wedi’u dilysu’n allanol, gan roi hyder i athrawon ynghylch y cynnwys a’r angen posibl i fynd i’r afael â phryderon rhieni.

> 'Mae gan yr ysgol gyllid ar draws y clwstwr ac maent wedi prynu adnoddau Jigsaw. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd i staff wrth gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n lleddfu pryderon staff ynghylch beth i'w gynnwys a rhieni'n codi cwestiynau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.5 **Roedd rhai lleoliadau wedi cael ymatebion negyddol gan rieni ynghylch yr agwedd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar y cwricwlwm.** Esboniodd sawl uwch arweinydd fod llawer o wybodaeth gyfeiliornus yn cylchredeg ymhlith rhieni, sy'n aml yn cael ei hyrwyddo gan y cyfryngau, a bod hyn weithiau wedi arwain at gwynion a heriau. Mewn lleiafrif o achosion, soniodd rhai uwch arweinwyr am ‘adlach’ gan rieni ynghylch newidiadau canfyddedig i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a’r hyn y bwriadwyd ei ddarparu, gan effeithio ar hyder athrawon a'i gwneud yn ofynnol i'r ysgol wneud ymdrech benodol i fynd i’r afael â phryderon. Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr hyn bwysigrwydd cyfathrebu'n gynnar â rhieni er mwyn cywiro gwybodaeth gyfeiliornus.

'Mae heriau o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a chamddealltwriaeth gan y gymuned. Mae rhieni wedi mynegi pryder am themâu nad ydynt mewn gwirionedd ar yr agenda. Mae straeon wedi achosi problem. Cawsom alwadau ffôn ac mae rhieni eisiau dod i mewn i gael sgwrs. Rydym wedi goresgyn hyn, wedi gwahodd y rhieni i ddod i mewn i drafod 'dathlu dysgu' ac mae hyn wedi helpu i roi stop ar y straeon.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

6.6 **Dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn eu lleoliadau wedi addasu deunyddiau o ffynonellau allanol i sicrhau eu bod yn briodol i ddatblygiad y disgyblion**: roedd teimlad nad oedd rhai adnoddau ar y lefel gywir i ddysgwyr a bod angen i staff eu haddasu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Soniodd eraill eu bod yn defnyddio adnoddau yn ôl yr angen, er mwyn helpu i feithrin hyder athrawon yn y maes hwn o'r cwricwlwm.

'Rydym wedi prynu Jigsaw a roddodd rywfaint o ganllawiau ar baramedrau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhywbeth nad oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu. Mae Jigsaw hefyd wedi helpu'r athrawon i deimlo'n hyderus wrth gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'r ysgol wedi newid y lefelau oedran y mae'n anelu atynt.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.7 Mynegodd eraill yr angen am gymorth mwy canolog ar gyfer dylunio'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a **chodwyd pryderon ynghylch gallu lleoliadau i gyflawni'r agwedd hon ar y cwricwlwm heb fynd i gostau**.

'Byddai'n dda cael mwy o weithgaredd dysgu proffesiynol a chymorth, fydden ni ddim wedi gallu cyflwyno'r agwedd hon ar y cwricwlwm heb brynu pecyn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.8 **Dywedodd sawl uwch arweinydd ei fod wedi dyrannu cyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i aelod penodol o staff, drwy benodi Pennaeth Lles, er enghraifft.** Roedd y dull hwn yn fwy cyffredin mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd. Weithiau, roedd yr aelodau dynodedig hyn o staff yn cael eu penodi i rôl newydd, neu roeddent yn aelod presennol o staff a oedd yn cael y cyfrifoldeb am arwain ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn aml yn unol ag ystyriaethau iechyd a lles mwy cyffredinol. Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi rhoi nifer o gyfrifoldebau i'r arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb penodedig gan gynnwys dylunio cynnwys y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhwydweithio allanol yn y Clwstwr neu gydag ysgolion eraill mewn

perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a threfnu / goruchwylio hyfforddiant i'r staff. Roedd yn ymddangos mai nod penodi aelodau penodol o staff oedd meithrin hyder o fewn ysgolion ynghylch gweithredu'r maes hwn o'r cwricwlwm, yn ogystal â darparu pwynt cyswllt canolog o fewn yr ysgol i athrawon ei ddefnyddio.

6.9 Dywedodd uwch arweinwyr fod **arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gweithio gydag arweinwyr Ardal eraill i ymgorffori testunau'n gysylltiedig â'r maes ar draws y cwricwlwm**. Roedd hyn yn caniatáu i'r lleoliadau hyn integreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb â phynciau presennol ac roedd hefyd yn adlewyrchu'r syniad, a nodwyd gan sawl uwch arweinydd, bod llawer o elfennau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eisoes yn cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth bresennol, cyn y newidiadau a gyflwynwyd gan y Cwricwlwm i Gymru.

> 'Ein harweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw'r Arweinydd Iechyd a Lles hefyd. Fe wnaeth fapio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'r cwricwlwm HWB fel bod staff yn gallu gweld yr elfennau gorfodol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Fe wnaeth ein harbenigwr yn yr ysgol nodi cyfleoedd ar gyfer meysydd pwnc i weithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rydym mewn sefyllfa dda gyda hyn - fe wnaethom gynnal archwiliad a dangosodd y canfyddiadau ein bod eisoes yn ymdrin â llawer o feysydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

6.10 **Soniodd rhai lleoliadau am bryder ynghylch diffyg hyder athrawon wrth gyflwyno cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr.** Dywedodd uwch arweinwyr fod athrawon yn anghyfforddus ac yn pryderu am achosi problemau'n anfwriadol yn sgil cyflwyno maes o'r cwricwlwm y maent yn anghyfarwydd ag ef. Roedd hyn yn aml yn erbyn cefndir o sylw negyddol yn y cyfryngau ac ofnau ynghylch heriau gan rieni. Soniodd rhai uwch arweinwyr eu bod wedi colli darparwyr allanol a fyddai'n darparu agweddau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn flaenorol, fel nyrsys ac elusennau, a phwysleisiwyd bod hyn bellach wedi dod i ran i aelodau mewnol o staff nad oeddent yn arbenigwyr.

> 'Nid yw athrawon am wneud unrhyw beth a allai achosi problemau - felly rydym yn dilyn cynllun [adnoddau] y cytunwyd arno. Byddai hyfforddwyr yn dod i mewn

> ychydig flynyddoedd yn ôl i ddangos adnoddau gwahanol inni ond nid yw hyn wedi digwydd ers Covid.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.11 Fel yr amlygwyd yn y dyfyniad uchod, cyfeiriodd ysgolion at ddefnyddioldeb adnoddau allanol wrth ddarparu fframwaith i'w ddilyn ac ymdeimlad o sicrwydd bod eu cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael ei brofi neu ei ddilysu'n allanol, a oedd yn ei dro yn hybu hyder athrawon.

6.12 **Dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr eu bod wedi buddsoddi mewn hyfforddiant staff i wella gwybodaeth a hyder staff wrth ddylunio a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.** Crybwyllwyd hyn ar draws pob lleoliad ysgol, ond nid gan unedau cyfeirio disgyblion nac ysgolion arbennig. Roedd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan yr arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb neu'r awdurdod lleol mewn perthynas â defnyddio'r adnoddau a gafaelwyd, neu er mwyn meithrin hyder staff wrth gyflwyno deunydd i'w dysgwyr.

> 'Rydym wedi bod yn defnyddio'r rhaglen Jig-so ar draws pob blwyddyn. Pecyn adnoddau yw hwn, ac rydym wedi cynnal hyfforddiant mewnol i staff nad oeddent yn hyderus i'w addysgu.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg

6.13 **Dywedodd nifer o leoliadau, yn enwedig ysgolion cynradd, fod cyfathrebu agored a thryloyw gyda rhieni am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwysig.** Roedd hyn mewn perthynas â chyfathrebu cynnwys a gofynion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â lleddfu pryderon a rhoi sicrwydd i rieni ynghylch y newidiadau. Roedd lleoliadau'n cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys rhoi gwybodaeth ar wefan yr ysgol, cynnal gweithdai i rieni, cynnal cyfarfodydd ar-lein, ac ateb ymholiadau unigol gan rieni a gofalwyr.

6.14 Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn ymwybodol o’r angen i fod yn dryloyw wrth ddangos i rieni beth fyddai’n cael ei addysgu i ddysgwyr, gan sicrhau yn aml bod cynlluniau gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gael ar-lein neu anfon gwybodaeth benodol at rieni a gofalwyr. **Dywedodd sawl ysgol fod cyfathrebu agored ar gam cynnar yn allweddol i gywiro gwybodaeth gyfeiliornus a thawelu meddyliau rhieni.**

> 'Pan gafodd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sylw yn y wasg, fe wnaethom gynnal llawer o nosweithiau gwybodaeth i rieni a dechrau rhoi ein cynlluniau gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar y wefan. Buom yn gweithio'n

dryloyw ac rydym wedi cyfathrebu'n glir â rhieni i gywiro unrhyw gamddealltwriaeth am y maes hwn o'r cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

6.15 **Awgrymodd rhai uwch arweinwyr y gellid gwneud mwy i atal camddealltwriaeth ymhlith grwpiau rhieni**, ac y byddai dull gweithredu o'r fath ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn cael ei groesawu.

'Rydym wedi rhannu ein dull gweithredu gyda dysgwyr a rhieni ond mae rhai o'r dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn niweidiol ac nid oes digon o gefnogaeth yn cael ei rhoi gan Lywodraeth Cymru i wrthweithio hyn.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

6.16 Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod gan leiafrif o rieni bryderon ynghylch y defnydd o'r gair 'Rhywioldeb' yn y teitl Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Profwyd hyn gan leiafrif bach o leoliadau ac ysgolion, gydag un enghraifft o ddiwrnod Pride mewn ysgol uwchradd yn cael ei foicotio gan rai rhieni.

6.17 Teimlai rhai uwch arweinwyr y byddai un adnodd / cynllun mandadol ledled Cymru yn ddefnyddiol er cysondeb, i roi sicrwydd i ymarferwyr ac i ateb cwestiynau rhieni.

**Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad**

6.18 Soniodd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig am yr **her o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr sydd ag oedrannau dysgu datblygiadol is** na'u hoedran gwirioneddol.

6.19 Roedd uwch arweinwyr mewn **unedau cyfeirio disgyblion yn croesawu'n arbennig y pwyslais ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd**, gan ddweud ei fod yn caniatáu iddynt drafod yn agored faterion sy'n berthnasol i gefndiroedd a phrofiadau bywyd eu dysgwyr.

6.20 Nodwyd anghyfartaledd posibl yn sgil **diffyg adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Cymraeg yr oedd modd eu prynu o ffynonellau allanol**, o gymharu â'r rhai sydd ar gael yn Saesneg.

# 7. Ieithoedd rhyngwladol

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â sut y mae dyluniad y cwricwlwm wedi siapio ac effeithio ar hyrwyddo ac addysgu ieithoedd rhyngwladol. Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- sut y mae addysgu ieithoedd rhyngwladol wedi cael ei weithredu mewn ysgolion
- y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i integreiddio ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'r cwricwlwm.

7.2 Mae strwythur yr adran hon yn wahanol i adrannau eraill yr adroddiad hwn oherwydd bod y canfyddiadau'n dangos gwahaniaeth clir rhwng safbwyntiau ymatebwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r is-adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau ar weithredu ieithoedd rhyngwladol fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd gan uwch arweinwyr, yn gyntaf mewn ysgolion cynradd ac yna mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Ysgolion cynradd

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd*

7.3 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod ar gamau cynnar addysgu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion.** Nododd llawer o uwch arweinwyr fod y gwaith o gynllunio neu weithredu gweithgareddau'n ymwneud ag ieithoedd rhyngwladol yn mynd rhagddo ond pwysleisiwyd eu bod ar gamau cynnar o ran rhoi'r rhain ar waith. Roedd y dulliau a grybwyllwyd gan uwch arweinwyr yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allanol, gweithio mewn clystyrau, defnyddio arbenigedd staff presennol ac uwchsgilio staff.

> 'Mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith. Bydd yn cymryd dwy neu dair blynedd cyn inni weld newidiadau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

7.4 **Nododd uwch arweinwyr fod eu gwaith o ddatblygu ieithoedd rhyngwladol o fewn eu cwricwlwm yn dibynnu ar gydweithio.** Soniodd uwch arweinwyr am enghreifftiau o wahanol fathau o weithgarwch cydweithredol, gan gynnwys

partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a gweithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno'r cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn ystyried yr angen i baratoi disgyblion ar gyfer rhai o'r ieithoedd rhyngwladol y byddent yn eu hastudio yn eu hysgol uwchradd leol.[7] Crybwyllwyd enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gan uwch arweinwyr, gan gynnwys ysgolion cynradd yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr uwchradd i ddarparu arweiniad a chymorth (e.e. datblygu adnoddau) i'w staff, ac mewn rhai achosion staff uwchradd yn addysgu disgyblion yn uniongyrchol mewn ysgolion cynradd. Lle nad oedd cymorth ar gael gan yr ysgol uwchradd leol, esboniodd uwch arweinwyr fod yr iaith ryngwladol sy'n cael ei blaenoriaethu mewn ysgolion cynradd yn dibynnu ar y capasiti a'r arbenigedd sydd ar gael yn eu hysgol. Dywedodd ambell uwch arweinyddd ei fod yn dibynnu ar sgiliau iaith rhyngwladol un ymarferydd allweddol yn eu lleoliad.

7.5 **Cyfeiriodd nifer o leoliadau, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, at bwysigrwydd cydbwyso datblygiad sgiliau Cymraeg â chyflwyno ieithoedd rhyngwladol.** Amlygodd uwch arweinwyr yr angen i ganolbwyntio ar sicrhau sgiliau dwyieithog Cymraeg-Saesneg, gan gyfeirio at yr angen i fynd i'r afael â'r canfyddiad o ddiffyg sgiliau Cymraeg oherwydd y pandemig. Nid dim ond uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a ddywedodd hyn, ond nifer o uwch arweinwyr yn y sector cyfrwng Saesneg hefyd.

> 'Rydw i eisiau i blant fod yn siarad Cymraeg yn gyntaf cyn iddyn nhw ddechrau dysgu ieithoedd eraill, ac os gallwn ni glymu'r holl beth gyda'i gilydd mae hynny'n wych. Ond mae'n anodd, yn enwedig i'w wneud yn iawn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr ysgolion cynradd*

7.6 **Roedd nifer o ysgolion yn gweithredu neu'n ystyried Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel yr iaith ryngwladol o'u dewis.** Mynegodd uwch arweinwyr awydd i ddechrau addysgu BSL ac roedd nifer wedi ystyried hyn fel opsiwn. Fodd bynnag,

[7] Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer lleoliadau wrth ddylunio eu cwricwlwm yn y Maes hwn. Gweler [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (llyw.cymru)]

nodwyd hefyd nad oedd digon o gapasiti i integreiddio hyn fel rhan o'r cwricwlwm ar hyn o bryd.

> 'Penderfynodd ein hysgol ganolbwyntio ar Ffrangeg yng nghyfnod allweddol 2 [terminoleg a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ddisgrifio Blynyddoedd 3-6] ar ôl ystyried BSL i ddechrau oherwydd, yn anffodus, nid oedd digon o gapasiti ac amser i uwchsgilio staff mewn BSL.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

7.7 **Dywedodd ambell uwch arweinydd mewn ysgolion cynradd fod iaith ryngwladol eisoes wedi'i hymgorffori yn eu lleoliad, ond bod hyn wedi'i ysgogi gan weithgarwch a gefnogwyd drwy gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'r Cwricwlwm i Gymru.**[8]

### Ysgolion uwchradd

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd*

7.8 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod eu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol a ddatblygwyd fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm yn parhau.** Dywedodd ambell bod eu hysgol wedi cynyddu nifer yr ieithoedd rhyngwladol a gynigir ym Mlwyddyn 7. Dywedodd ambell uwch arweinydd fod mwy o weithgarwch cynllunio ar y cyd bellach rhwng ymarferwyr ieithoedd rhyngwladol ac athrawon Cymraeg a Saesneg yn eu hysgol.

> 'Mae gennym gysylltiadau da rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg ac mae'r ffocws ar sicrhau myfyrwyr amlieithog. Mae gennym arweinwyr a staff cryf yn y maes hwn felly mae'n cael ei hyrwyddo'n sylweddol yn yr ysgol'. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr ysgolion uwchradd*

7.9 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i ddatblygu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn eu clwstwr.** Roedd enghreifftiau o waith clwstwr yn cynnwys defnyddio arbenigedd athrawon uwchradd neu fyfyrwyr chweched dosbarth yn ymweld ag ysgolion cynradd i gefnogi'r ddarpariaeth. Yn y sector uwchradd cyfrwng

---

[8] O dan drefniadau'r cwricwlwm blaenorol, roedd fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2. Gweler Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Cymraeg dywedodd un uwch arweinydd fod ei ysgol yn cyfuno adnoddau staff o fewn y clwstwr i ddarparu ieithoedd ar draws nifer o ysgolion.

'Mae cefnogi darpariaeth yn bwysig ond mae dysgu ac addysgu ar y cyd a chydgynllunio yn fwy pwysig.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg

7.10 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at yr angen i ddiwallu anghenion eu disgyblion mewn ysgolion lle mae niferoedd mawr o ddysgwyr yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.** Cododd nifer o ysgolion y pwynt fod llawer o ieithoedd yn cael eu siarad yn eu hysgolion a bod disgyblion eisoes yn ddwyieithog mewn llawer o achosion. Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn cynnig y cyfle i symud ymlaen ac ennill cymwysterau yn iaith cartref disgyblion.[9]

‘Mae angen inni flaenoriaethu diwallu anghenion ein dysgwyr, rydym yn pryderu y gallai’r newidiadau i’r cwricwlwm olygu bod yn rhaid inni newid yr hyn yr ydym bob amser wedi’i wneud a’r hyn sy’n gweithio – h.y. mae’r cymwysterau y mae ein myfyrwyr yn eu hastudio ar gyfer iaith eu cartref yn ymddangos fel rhywbeth ychwanegol, ond yn ddiwylliannol mae hyn yn hollbwysig i'n disgyblion.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.

### Ysgolion arbennig

7.11 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn fwy tebygol na lleoliadau eraill o nodi eu bod yng nghamau cynnar gweithredu'r ddarpariaeth.** Roedd uwch arweinwyr yn tueddu i fynegi awydd i ymgorffori BSL yn eu cwricwla.

### Unedau Cyfeirio Disgyblion

7.12 **Dywedodd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion nad oedd ieithoedd rhyngwladol yn cael eu blaenoriaethu cymaint ag elfennau eraill o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu lleoliadau ar hyn o bryd.** Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, cyflogadwyedd ac iechyd a lles.

[9] Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos cynnydd yn y Gymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith arall o'r ysgol gynradd ymlaen. Gallai hyn gynnwys iaith cartref neu iaith cymuned y dysgwyr os yw'r lleoliad yn cyflwyno darpariaeth i'w helpu i wneud cynnydd yn yr iaith hon.

# 8. Cynnydd

8.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â **sut y mae lleoliadau'n gweithio'n fewnol, a chydag ysgolion eraill, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.** Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- a oeddent wedi gweithio gydag ysgolion o fewn eu clwstwr a'r tu allan iddo
- sut yr oedd eu hysgol yn rhannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr gyda rhieni, a beth oedd yr ymateb gan rieni
- pa mor ymarferol yw hi i ysgolion adrodd i rieni bob tymor ar gynnydd dysgwyr a faint o faich y mae hyn yn ei greu
- sut y mae lleoliadau'n sicrhau bod y cwricwlwm yn herio pob dysgwr yn briodol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr.

8.2 Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau ar gynnydd fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr mewn perthynas â chynnydd*

8.3 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi datblygu cynlluniau cynnydd (a elwir yn aml yn 'fapiau cynnydd') ar draws y Meysydd, ac roedd y sylwadau'n dangos bod egwyddorion cynnydd wedi'u hymgorffori yn y broses o ddylunio'r cwricwlwm.** Nododd uwch arweinwyr mai nod y cynlluniau cynnydd yw cefnogi dysgwyr i gynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth, atgyfnerthu a dyfnhau eu dealltwriaeth a gwneud cysylltiadau a chymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu a'u sgiliau mewn gwahanol gyd-destunau. Pwysleisiodd uwch arweinwyr bwysigrwydd datblygu sgiliau, 'fel bod gwaith dysgwyr yn fwy heriol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi ar draws y gwahanol bynciau' (Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg). Cyfeiriodd ysgolion hefyd at 'ymgorffori' cynnydd fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm.

> ‘Mae cynnydd yn rhan annatod o ddyluniad ein cwricwlwm – bydd cyflwyno’r cwricwlwm yn llwyddiannus yn sicrhau cynnydd dros amser’ – Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.4 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn defnyddio'r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig a’r disgrifiadau dysgu i fapio cynnydd ar draws y Meysydd. Nododd uwch arweinwyr fod mapiau cynnydd wedi’u datblygu fesul Maes (neu’n fwy cyffredin fesul pwnc mewn ysgolion uwchradd) sy’n amlinellu’r sgiliau y disgwylir i ddysgwyr allu eu harddangos erbyn diwedd blwyddyn ysgol benodol, cam cynnydd penodol neu hyd yn oed destun gwaith penodol. Mae'r rhain yn aml yn seiliedig ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig neu'n cael eu datblygu drwy gyfeirio at y datganiadau hynny.

8.5 Er bod llawer o’r gweithgarwch hwn yn weithgarwch sydd ar y gweill, wrth i ysgolion barhau i ddatblygu, profi, adolygu a mireinio eu modelau, maent yn pwysleisio’r angen i fabwysiadu dulliau systematig a thrylwyr, gan sicrhau bod safonau mewn sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cofnodi. Cyfeiriodd uwch arweinwyr yn aml at y ffaith bod arweinwyr Meysydd a phynciau yn gosod targedau ar gyfer deilliannau dysgu, ac yn eu hadolygu ac adrodd arnynt bob tymor fel rhan o adroddiadau cynnydd dysgwyr unigol. Mae athrawon yn adolygu ac yn cofnodi a yw sgiliau a gwybodaeth benodol yn datblygu ac yn bwrw gwreiddiau.

> 'Mae angen inni wybod am safonau mewn mathemateg, sillafu ac oedrannau darllen y plant, felly rydym yn ymchwilio i ddynodwyr cynnydd mewn ffoneg, cyfrifo a sillafu. Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.6 **Mae ysgolion yn gweithio’n fewnol ac mewn clystyrau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.** Mae dwy agwedd i’r gwaith hwn yn fras, y ddwy ohonynt yn berthnasol mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd fel ei gilydd: yn gyntaf, gweithio tuag at ddealltwriaeth ysgol gyfan o ffyrdd newydd o gysyniadu cynnydd ‘ôl lefelau’ sy’n canolbwyntio’n fwy ar ddeall cynnydd dysgwyr mewn ffyrdd unigolyddol a chyfannol; yn ail, sicrhau dull cyffredin o ddehongli a defnyddio fframweithiau (neu fodelau) cynnydd a ddatblygir gan ysgolion i ddogfennu cynnydd dysgwyr. Mae llawer o’r modelau hyn yn cynnwys graddfeydd i gofnodi cynnydd dysgwyr ar draws Meysydd (e.e. lle mae gofyn i athrawon nodi a yw sgiliau a gwybodaeth dysgwyr wedi ‘bwrw gwreiddiau’, ‘yn sicr’, neu ‘yn datblygu’ mewn

Maes penodol) ac mae’r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd dehongliad cyffredin o derminoleg wrth adrodd ar gynnydd dysgwyr.

8.7 Dywedodd uwch arweinwyr cynradd eu bod wedi trefnu trafodaethau rhwng athrawon am sut olwg ddylai fod ar gynnydd dysgwyr o’r meithrin hyd at Flwyddyn 6. Roedd y trafodaethau hyn yn sail i ddatblygu cynlluniau cynnydd. Mae uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac arweinwyr Maes hefyd wedi cyfarfod fel clystyrau cynradd a chyda phartneriaid ysgolion uwchradd i ddod i gytundeb ar y cynnydd a’r sgiliau y gellid disgwyl i ddysgwyr eu harddangos erbyn diwedd Blwyddyn 6 er mwyn cefnogi pontio a chydlyniant mewn cynnydd ar draws clystyrau.

8.8 **Mae pwyslais ar fwy o weithio mewn clystyrau i gefnogi cynnydd.** Ymhlith yr enghreifftiau nodedig o gydweithio ar draws clystyrau roedd:

- Ysgolion cynradd yn gweithio mewn clystyrau i ymchwilio i agweddau ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru i gefnogi cynlluniau cynnydd.

'Fel arweinwyr MDPh ar draws y clwstwr, rydym yn ceisio dadansoddi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau o ddysgu. Beth yw'r pethau nad ydynt yn agored i drafodaeth y mae'n rhaid inni ganolbwyntio arnynt a dangos cynnydd yn eu herbyn?' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

'Drwy'r clwstwr, mae'r ysgol wedi datblygu Mapiau Cynnydd MDPh o'r Derbyn i Flwyddyn 6 ym mhob Maes. Mae hwn yn gosod llwybr i ddysgwyr a geirfa gyffredin ar draws y clwstwr. Mae potensial i seilio dogfennau cynllunio ar y dull newydd hwn.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

- Cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau parhad wrth gynllunio’r cwricwlwm i gefnogi cynnydd dysgwyr.

'Rydym wedi treulio sawl diwrnod yn gweithio gydag ysgolion cynradd i sicrhau dull cyffredin. Rydym wedi edrych ar gynlluniau ysgolion cynradd, gan feddwl sut y gallwn ni fel ysgol uwchradd ddilyn hyn. Yn allweddol i hyn bydd edrych ar sut y mae dysgwyr yn datblygu yn unol ag egwyddorion cynnydd a gwerthuso hyn yn barhaus.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

- Datblygu **modelau cynnydd / dulliau tracio cynnydd** cyffredin a ddefnyddir ar draws clystyrau (cynradd ac uwchradd) i sicrhau dull cyffredin o gofnodi cynnydd.
- Mae nifer o glystyrau wedi sefydlu **'grwpiau cymedroli clwstwr'** i adolygu gwaith dysgwyr (ar draws gwahanol ysgolion) a dod i gytundeb ar sut olwg

sydd ar wahanol gamau cynnydd. Mewn rhai enghreifftiau, trefnir y rhain fesul Maes ac mewn enghreifftiau eraill, fesul grŵp blwyddyn.

- **Gweithgaredd mentora cyfoedion** gydag ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion uwchradd yn darparu cymorth ar gynnydd (ac agweddau eraill ar weithredu'r cwricwlwm) i athrawon blwyddyn 6, sydd, yn eu tro, yn mentora athrawon grwpiau blwyddyn iau. Pwysleisiodd uwch arweinwyr bwysigrwydd cael amser rheolaidd wedi'i neilltuo i weithio mewn clystyrau, yn benodol mewn perthynas â chynnydd.

> 'Rydym yn neilltuo amser bob hanner tymor ac fel clwstwr rydym yn trafod sut olwg sydd ar gynnydd ar draws yr ysgolion. Nid ydym yn ceisio pennu'r hyn y dylid ei gynnwys yn y cwricwlwm ond rydym yn gweithio tuag at gydlyniant er mwyn sicrhau bod elfennau cyffredin ym mhrofiadau'r plant a'r lefel y maent wedi'i chyrraedd erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 7.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.9 Nododd rhai arweinwyr ysgolion cynradd heriau wrth weithio gyda'u partneriaid yn y clwstwr: yn fwyaf cyffredin roedd yr heriau hyn yn ymwneud ag ysgolion yn 'tynnu i gyfeiriadau gwahanol'. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion eraill fod rhwydweithiau cynradd/uwchradd a gweithio mewn clwstwr yn gryfach mewn rhai Meysydd neu bynciau nag eraill. Fel arfer, roedd hyn yn dibynnu ar lefelau ymgysylltu rhwng arweinwyr adrannau mewn ysgolion uwchradd ac arweinwyr Maes mewn ysgolion cynradd.

8.10 **Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydnabod bod mwy o bwyslais ar y cynnydd a wneir gan y dysgwr unigol fel rhan o'u ffordd o feddwl a'u gwaith cynllunio mewn perthynas â chynnydd.** Cyfeiriodd ysgolion yn aml at ddatblygu dealltwriaeth fwy 'cyfannol' o gynnydd pob dysgwr, gan ystyried cyd-destun yr unigolyn, ei gryfderau a'i gymhellion. Nododd uwch arweinwyr fod eu hysgolion wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio 'casgliadau o ddatganiadau stoc' i adrodd ar gynnydd dysgwyr o blaid adroddiadau cynnydd mwy ansoddol. Mewn rhai ysgolion, caiff y rhain eu cefnogi gan gyfarfodydd cynnydd dysgwyr, sy'n galluogi ymarferwyr i drafod cynnydd pob plentyn mewn ffordd fwy unigolyddol. Defnyddir hyn, yn ei dro, i lywio addysgu a dysgu gwahaniaethol i gefnogi dysgwyr unigol.

> "Mae datblygiad dysgwyr bellach yn cael ei fesur yn eu herbyn nhw eu hunain, yn hytrach na'r asesiad a'r lefelau 'tyngedfennol' a ddefnyddiwyd o'r blaen. Mae hyn yn well ac yn canolbwyntio'n fwy ar gynnydd unigol, yn hytrach na phennu lefel

mewn perthynas â lefel ddisgwyliedig.” Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.11 **Rhoddodd ysgolion sawl o enghraifft o fodelau cynnydd a dulliau y maent wedi’u datblygu a/neu’n eu treialu.** Roedd yr enghreifftiau a nodwyd gan uwch arweinwyr yn cynnwys:

- Adroddiadau naratif ac ansoddol ar gynnydd unigolion:

'Rydym yn olrhain cynnydd ar lefel unigol: bob tymor mae uwch staff yn cyfarfod â phob athro dosbarth ac yn trafod pob plentyn, gan nodi ei gryfderau, ei wendidau, ei gynnydd yn erbyn targedau penodol a osodwyd. Mae'n eithaf pwrpasol ac yn sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu nodi – mae'n cymryd llawer o amser (hanner diwrnod fesul dosbarth, fesul tymor) ond bydd yn fwy perthnasol i'r dysgwr hwnnw.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- Dyfeisio fframweithiau a ‘graddfeydd’ cynnydd i gofnodi cynnydd dysgwyr:
    - mae'r cynnydd mewn sgiliau neu mewn perthynas â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn 'uwch na'r disgwyl, yn unol â'r disgwyl, yn is na'r disgwyl' (enghreifftiau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd);
    - mae sgiliau a gwybodaeth yn 'datblygu a sicrhau' (enghreifftiau o fodelau a therminoleg debyg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd);
    - mae'r dysgwyr yn gallu dangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn 'bron pob un, y rhan fwyaf, tua hanner, llai na hanner' y wybodaeth a'r sgiliau a addysgwyd y tymor hwn (roedd dulliau o fesur yn fras maint y dystiolaeth o ddysgu yn fwy cyffredin mewn ysgolion uwchradd).

'Rydym yn cofnodi a yw'r cynnydd yn unol â'r disgwyl, yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl ac yn rhoi cod lliw ar gyfer pob plentyn. Mae hwn yn cael ei fapio yn erbyn targedau'r dysgwyr ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.12 Nododd nifer o uwch arweinwyr, er eu bod wedi datblygu matricsau i gofnodi cynnydd (sy’n defnyddio graddfeydd neu godau), eu bod hefyd yn annog ymarferwyr i ddefnyddio’r offer hyn yn reddfol a defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain wrth feddwl am gynnydd a sut y mae hyn yn berthnasol i’w hymarfer eu hunain.

'Mae gennym dargedau â chodau lliw er mwyn creu gweledigaeth a dyhead hirdymor ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, rydym yn caniatáu amser i athrawon

gymryd saib, myfyrio a chymryd amser i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd gyda disgyblion unigol. Mae'r dull hwn o ymdrin â chynnydd wedi galluogi athrawon i werthfawrogi sut y mae'r cwricwlwm a chynnydd yn mynd law yn llaw.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed cyfrwng Saesneg

8.13 Cyfeiriodd ysgolion eraill at ddulliau a modelau sy'n cofnodi agwedd dysgwyr at ddysgu ochr yn ochr â chynnydd mewn gwybodaeth a sgiliau.

8.14 **Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod y dulliau newydd a oedd yn cael eu mabwysiadu i ymdrin â chynnydd dysgwyr yn gofyn i ymarferwyr newid eu meddylfryd, a bod hynny'n debygol o gymryd peth amser.** Nododd uwch arweinwyr ysgolion cynradd fod heriau o ran symud ymlaen o 'ddiwylliant o atebolrwydd' a bod hyn wedi gwneud i ymarferwyr deimlo'n ansefydlog, yn enwedig y rhai nad ydynt yn deall egwyddorion cynnydd. Dywedodd un uwch arweinydd:

'Mae lefelau a blychau ticio wedi diflannu, ac mae hynny i'w groesawu. Ond mae yna athrawon profiadol sy'n ei chael hi'n anodd deall egwyddorion cynnydd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.15 Nododd pennaeth ysgol gynradd arall, wrth symud tuag at fodel cynnydd newydd, fod yna athrawon a oedd yn dal i fod eisiau rhoi Lefel gyfatebol i ddysgwyr, fel bod ymarferwyr yn cyflwyno neu'n cyfeirio at ddau 'fodel' cynnydd gwahanol ar yr un pryd. Awgrymwyd bod rhywfaint o hyn yn deillio o ansicrwydd ynghylch trefniadau atebolrwydd.

'A yw Estyn wir yn mynd i fod yn arolygu ysgolion yn seiliedig ar gynnydd dysgwyr? Mae llawer yn disgwyl gweld anghysondeb rhwng yr hyn y mae Llywodraeth Cymru am i ysgolion ei wneud a'r hyn y mae Estyn yn ei ddisgwyl.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.16 Roedd y sylwadau mewn perthynas â ffyrdd newydd o gysyniadu cynnydd dysgwyr yn fwy tebygol o gael eu codi gan uwch arweinwyr ysgolion uwchradd na'u cymheiriaid mewn ysgolion cynradd. Disgrifiodd uwch arweinwyr newid meddylfryd fel her barhaus, yn enwedig mewn rhai Meysydd, gan gynnwys Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg. Disgrifiwyd y lefelau (a manylebau arholiadau) sydd wedi bod yn sbardun i ymddygiad ac ymarfer addysgu ers blynyddoedd lawer. Er bod uwch arweinwyr wedi nodi cefnogaeth eang i'r diwygiadau, mae'n debygol o gymryd amser i athrawon ailfeddwl a 'theimlo'n gyfforddus' yn gweithio o dan y trefniadau newydd.

> 'Rydym wedi siarad (fel tîm o staff) am beidio â dysgu myfyrwyr i basio arholiadau - yn hytrach mae'r ffocws ar ddysgu gwybodaeth bynciol a sgiliau allweddol y ddisgyblaeth iddynt. Mae hyn yn anodd gan fod athrawon yn cael eu drilio i addysgu ar sail manylebau arholiadau. Mae'r newidiadau yn sgil atal arholiadau wedi bod yn ddefnyddiol gan ei fod wedi rhoi lle i ni feddwl am sut i newid i ffordd newydd o weithio'. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.17 Newid pellach a nodwyd gan uwch arweinwyr ysgolion uwchradd oedd mabwysiadu dull mwy cydweithredol o feddwl am gynnydd dysgwyr a'i gofnodi. Ystyriwyd bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol ac roedd yn adlewyrchu symudiad cyffredinol tuag at gydweithio agosach mewn perthynas â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

> 'Un o'r newidiadau mwyaf yw bod athrawon bellach yn trafod y cynnydd mewn dysgu yn llawer amlach, lle roedd yn arfer bod yn dasg eithaf unig. Mewn Meysydd fel y celfyddydau mynegiannol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu, y dyniaethau, mae penaethiaid adrannau ac athrawon yn dod at ei gilydd ac yn trafod pob plentyn unigol. Mae hyn yn eu galluogi i ddod i gonsensws ynghylch cynnydd dysgwyr – mae hyn yn helpu i wreiddio dealltwriaeth gyffredin o gysyniadau a'r iaith a ddefnyddir mewn perthynas â chynnydd.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

8.18 **Disgrifiodd uwch arweinwyr newidiadau yn y modd yr oedd eu lleoliad yn adrodd ar wybodaeth am gynnydd dysgwyr i rieni a gofalwyr. Roedd y newidiadau hyn yn ymwneud â sut y maent yn adrodd i rieni (h.y. y fformat a ddefnyddir), yn ogystal â'r hyn y maent yn adrodd arno.** Soniodd uwch arweinwyr eu bod yn cadw cymysgedd o adroddiadau ysgrifenedig (yn aml ar ddiwedd tymor, unwaith neu ddwywaith y flwyddyn fel arfer) a chyfarfodydd unigol wyneb yn wyneb neu ar-lein gyda rhieni (yn aml ddwywaith y flwyddyn). Ar adegau, roedd rhai wedi cynyddu nifer yr adroddiadau ysgrifenedig ac wedi lleihau nifer y sesiynau wyneb yn wyneb / ar-lein, neu i'r gwrthwyneb. Dywedodd uwch arweinwyr fod newid i'w groesawu tuag at gyswllt mwy personol â rhieni a gofalwyr ynglŷn â phob dysgwr, a bod eu dulliau adrodd yn gallu adlewyrchu hyn.

> 'Mae'r ysgol wedi bod yn defnyddio dull mwy amrywiol o drafod cynnydd disgyblion - [gan symud] i ffwrdd o drafodaeth 10 munud ar gynnydd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.19 **Dywedodd uwch arweinwyr mewn rhai lleoliadau fod amharodrwydd ymhlith ymarferwyr yn eu lleoliadau i roi'r gorau i ddulliau adrodd traddodiadol ar lefelau a graddau, weithiau yn absenoldeb cadarnhad o ddull asesu newydd o fewn yr ysgol.** Mewn lleoliadau lle roedd rhieni a gofalwyr yn 'ymwybodol iawn o

lefelau', cafwyd heriau ynghylch newid meddylfryd mewn perthynas â chynnydd ymhlith rhieni/gofalwyr ac athrawon. Dywedodd uwch arweinwyr fod eu lleoliadau’n defnyddio iaith a thermau yr oeddent yn teimlo y byddent yn gyfarwydd i rieni, yn ogystal ag ymgorffori termau newydd yn ymwneud â mesurau eraill (fel agwedd, ymdrech a chynnydd cyffredinol). Gwelwyd y dull hwn o gyfuno terminoleg mewn lleoliadau lle roedd llai o ymwybyddiaeth yn draddodiadol hefyd.

> 'Doedd rhieni ddim yn deall lefelau beth bynnag, felly rydyn ni'n dal i ddilyn ein system raddio sy'n adlewyrchu graddau TGAU [A, B, C ac ati], a nawr rydyn ni'n gyson ar draws yr ysgol gyfan o ran sut rydyn ni'n adrodd i rieni. Rydym yn ei fframio fel “Mae eich plentyn yn dangos arwyddion o gynnydd ar radd C-.” Mae'n or-syml ond mae'r rhieni a'r plant ill dau yn ei ddeall.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

> 'Fe wnaethom lunio adroddiadau diwedd blwyddyn y llynedd - gan ddefnyddio 'yn unol â'r disgwyl', 'yn is na'r disgwyl', 'yn uwch na'r disgwyl'. Rydym hefyd yn cynnwys manylion am agwedd a chynnydd a pha gamau y mae angen i ddysgwyr eu cymryd gartref i gefnogi eu hunain. Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.20 **Roedd sawl lleoliad wedi dechrau cyflwyno 'diwrnodau dysgu' fel dull newydd o adrodd,** lle mae rhieni a gofalwyr yn cael eu gwahodd i'r ysgol i weld gwaith eu plentyn a thrafod eu dysgu. Roedd y dull hwn yn llawer mwy cyffredin mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd ac ystyriwyd ei fod yn cynnig cyfleoedd pellach i’r ysgolion hyn roi’r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am newidiadau i’r cwricwlwm yn fwy cyffredinol, ochr yn ochr â thrafod cynnydd dysgwyr unigol.

> 'Rydym wedi ychwanegu Diwrnod Dysgu - rhieni'n ymweld â'r ysgol ac yn rhannu'r dysgu gyda'u plentyn, gan edrych ar lyfrau ac arddangosiadau - mae'r plant yn rhannu eu cynnydd, cyfranogiad y dysgwr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

8.21 Fel yr amlygir yn y dyfyniad uchod, yn y digwyddiadau a'r diwrnodau dysgu hyn cymerodd y plant ran weithredol yn y broses adrodd, ac roedd ffocws ar y dysgwyr yn dangos eu llyfrau gwaith i rieni/gofalwyr. Teimlai rhai uwch arweinwyr fod y dull hwn yn symud y drafodaeth y tu hwnt i rieni/gofalwyr ac athrawon yn unig ac yn galluogi’r plant i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain a datblygu dealltwriaeth o’u cynnydd eu hunain.

8.22 **Mynegodd ysgolion bryderon neu heriau mewn perthynas â sawl agwedd ar gynnydd.** Nododd uwch arweinwyr ysgolion cynradd:

- Y risg bod yr amrywiaeth mewn dulliau cynnydd yn cyfrannu at system 'dameidiog' lle y gall ysgolion fod yn 'tynnu i gyfeiriadau gwahanol'. Er ei fod yn cydnabod, fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, bod ysgolion yn gweithio mewn clystyrau mewn sawl achos i geisio sicrhau lefel o gysondeb, gall yr amser a'r egni sydd eu hangen ar gyfer y gwaith cydweithredol hwn amharu ar weithgarwch arall, yn ôl rhai uwch arweinwyr.
- Bod yr amser a'r ymdrech a dreuliwyd gan staff i adolygu a newid dulliau o ymdrin â chynnydd wedi cynyddu'r pwysau ar staff.

'Mae staff yn gweithio gartref i wneud hyn [gwaith ar gynnydd]. Rydym yn awyddus i dreialu newidiadau i'r diwrnod ysgol i gynnwys amser datblygu ar gyfer staff.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- Bod diffyg eglurder o ran sut yr oedd camau cynnydd yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm.

'Mae camau cynnydd yn eang iawn.  Mae angen rhywbeth mwy penodol a chyson ar draws ysgolion. Mae angen esboniad o sut i ddefnyddio'r camau cynnydd.'  Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

- Bod rhai o'r deunyddiau cymorth ac arweiniad a ddarparwyd gan gonsortia addysg rhanbarthol yn 'haniaethol' ac nad oeddent yn helpu i ddatblygu cynlluniau ysgolion mewn perthynas â chynnydd.

8.23 Mynegodd uwch arweinwyr ysgolion uwchradd rywfaint o bryder ynghylch sut i sicrhau y byddai dulliau o ymdrin â chynnydd (ac asesu) yn bodloni gofynion a disgwyliadau statudol mewn perthynas ag atebolrwydd.  Roedd teimlad hefyd bod camau cynnydd yn cael eu camddeall (gyda rhai yn mynegi pryder bod arweinwyr canol ac ymarferwyr yn gweld camau cynnydd fel 'fframwaith ar gyfer asesu'). Roedd eraill yn pryderu bod y camau cynnydd yn 'rhy eang'.

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

8.24 **Cymorth ychwanegol a her.** Nododd uwch arweinwyr fod Consortia Addysg Rhanbarthol yn darparu ystod o gymorth i ysgolion (e.e. cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd ar gyfer arweinwyr asesu a chynnydd; deunyddiau i helpu ysgolion i ddatblygu dulliau o fapio cynnydd a chyrhaeddiad; mynediad at siaradwyr/cynghorwyr arbenigol i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm).

Dywedodd uwch arweinwyr fod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir drwy glystyrau a rhwydweithiau. Teimlai rhai, er bod cynlluniau'r cwricwlwm yn cael eu datblygu a'u gweithredu ymhellach, fod angen mwy o her adeiladol allanol.

> 'Bydd agweddau ar ein dull o ymdrin â chynnydd ac asesu yn cael eu mireinio gan waith clwstwr. Ond rwy'n dal i deimlo bod angen rhywun i ddod i gytuno neu anghytuno â ni – Estyn fwy na thebyg.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

8.25 **Cyfeiriodd ysgolion at yr offer y maent yn eu defnyddio i olrhain cynnydd.** Mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio neu wedi defnyddio offer allanol a Taith 360 a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin ymhlith y sampl o uwch arweinwyr a gyfwelwyd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod ysgolion yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pecyn hwn a rhai pecynnau eraill wrth iddynt ddatblygu eu dulliau olrhain cynnydd pwrpasol eu hunain. Mae'r dulliau mwy pwrpasol hyn o gofnodi cynnydd dysgwyr fel arfer yn cynnwys dyddlyfrau dysgu neu bortffolios dysgu sy'n casglu gwybodaeth am y sgiliau a'r dysgu a ddatblygir ar draws y Meysydd.

8.26 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd fod y pwyslais ar **y dulliau mwy pwrpasol hyn o gofnodi cynnydd yn helpu dysgwyr i gael gwell dealltwriaeth o'u cynnydd eu hunain.**

### Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad

8.27 Roedd uwch arweinwyr ysgolion arbennig yn cwestiynu a oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i gyhoeddi canllawiau ar gamau cynnar cynnydd a sut y disgwylir i leoliadau ddogfennu cynnydd dysgwyr 'cyn cam cynnydd 1'.

8.28 Roedd barn uwch **arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn wahanol mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael iddynt drwy rwydweithiau.** Dywedodd ysgolion arbennig mewn ardaloedd mwy trefol eu bod wedi elwa o gyfarfodydd misol 'rhwydwaith cadarnhau' sydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi datblygu a rhannu syniadau ar gynnydd ac wedi darparu swyddogaeth gymedroli wrth i ysgolion gynhyrchu offer a dechrau ymgorffori terminoleg newydd. Fodd bynnag, dywedodd uwch arweinydd o ysgol arbennig mewn ardal fwy gwledig ei fod yn teimlo'n ynysig ac nad oedd digon o gyfleoedd i drafod a chymharu cynlluniau mewn perthynas â chynnydd dysgwyr.

8.29 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig eu bod wedi addasu eu systemau ar gyfer cofnodi cynnydd dysgwyr ac adrodd i rieni.** Nodwyd eu bod wedi symud i ffwrdd o gasglu llawer iawn o dystiolaeth bapur neu enghreifftiau o daflenni gwaith dysgwyr i ddangos cynnydd. Nododd uwch arweinwyr eu bod wedi trafod cynnydd gyda'r rhwydwaith ysgolion arbennig a bod eraill yn defnyddio dulliau tebyg.

> 'Rydym yn treialu dull newydd o adrodd i rieni. Yn ogystal â nosweithiau rhieni, rydym yn llunio adroddiadau cynnydd dysgu tymhorol. Rwyf wedi rhoi arweiniad i staff i ganolbwyntio yn yr adroddiadau hyn ar yr hyn y gall y plentyn ei wneud, yr hyn y mae wedi'i gyflawni, fel naratif, neu ar ffurf ffotograffau. Os mai tynnu ei got a'i hongian ar fachyn yw hynny, cofnodwch hynny, os mai cymryd rhan mewn dosbarth ioga yw e, rhowch luniau yn yr adroddiad. Rydym hefyd yn cofnodi'r hyn sydd wedi newid yn eu safonau llythrennedd a rhifedd. Yr hyn sy'n allweddol yw ei fod yn adroddiad cyfeillgar i ddisgyblion a rhieni.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

8.30 **Cododd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion nifer o bwyntiau a oedd yn ymwneud yn benodol â'u lleoliadau mewn perthynas â chynnydd.** Roedd y materion allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Mae unedau cyfeirio disgyblion yn gweithio gyda llawer o ysgolion prif ffrwd, felly bydd y dysgwyr sy’n trosglwyddo i’r lleoliad ac oddi yno wedi cael eu cefnogi drwy ystod o fodelau a dulliau cynnydd. Awgrymwyd bod hyn yn cymhlethu'r broses o ddeall taith dysgwr unigol a darparu cymorth priodol ac angenrheidiol, yn aml pan fo gan y dysgwr anghenion cymorth lluosog a chymhleth.
- Dywedodd un uwch arweinydd sy’n gweithio mewn uned cyfeirio disgyblion uwchradd y byddai’n parhau i ddefnyddio Lefelau (ar gyfer dysgwyr hŷn blwyddyn 8 a 9) ochr yn ochr â dulliau newydd o olrhain cynnydd gan nodi eu bod yn ‘gweithio mewn system dwy haen wrth inni drosglwyddo i drefniant newydd.' (Uwch arweinydd uned cyfeirio disgyblion).
- Nododd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion eu bod bob amser wedi cynllunio addysgu a dysgu mewn ffordd wahaniaethol, gan adlewyrchu sefyllfa ac anghenion yr unigolyn. Dywedwyd bod hyn bob amser yn ddwysach ac yn cymryd mwy o amser i athrawon. Nododd unedau cyfeirio disgyblion eu bod bob amser wedi bwydo gwybodaeth yn ôl i brif ysgol y

dysgwyr yn rheolaidd (yn wythnosol fel arfer), gan drafod eu sefyllfa a'u cynnydd. Mae'r trefniadau newydd yn creu heriau ychwanegol i athrawon unedau cyfeirio disgyblion: yn ogystal â gweithio'n fewnol i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn y lleoliad, bydd angen iddynt ddeall dulliau a modelau ysgolion eraill er mwyn gallu mesur anghenion dysgwyr a sut i gynllunio darpariaeth dysgu.

# 9. Asesu

9.1 Mae’r adran hon yn amlinellu canfyddiadau’r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o ddylunio, cynllunio a threialu’r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn eu hysgolion. Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- beth oedd wedi newid o ran eu dull asesu
- a oedd trefniadau'n gweithio'n effeithiol/yn unol â'r disgwyl hyd yma
- a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau
- a oedd angen cymorth ychwanegol penodol arnynt o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, adnoddau, cymorth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol).

9.2 Mae’r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau ar asesu gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr mewn perthynas ag asesu*

9.3 **Nododd uwch arweinwyr gynnydd o ran datblygu dulliau asesu newydd, gyda ffocws cynyddol ar asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd.** Mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd, nododd uwch arweinwyr newid bwriadol i groesawu asesu ar gyfer dysgu a sicrhau ei fod yn bwrw gwreiddiau ymhlith yr holl staff. Nododd llawer o uwch arweinwyr fod ysgolion wedi bod yn ymwybodol ers peth amser o werth asesu ar gyfer dysgu, ond bod y diwygiadau i’r cwricwlwm wedi bod yn gatalydd i ysgolion roi newidiadau ar waith mewn trefniadau asesu. Mae athrawon yn cynnal asesiad parhaus o unedau gwaith i ddeall a yw gwybodaeth neu sgiliau'r dysgwyr yn gadarn, sy'n llywio'r gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth yn barhaus.

> 'Mae asesu yn broses o ddydd i ddydd - mae athrawon yn edrych ar y gwaith a gwblhawyd gan y plant ac yn meddwl 'A yw'r bwriadau dysgu wedi'u cyflawni? Beth sydd angen imi ei wneud nesaf? Mae'n monitro effaith addysgu ar y plant o ddydd i ddydd. Bydd yr asesiad dyddiol yn arwain at gynnydd. Yr hyn yr ydych yn ei wneud ar ddiwedd y dydd yw gwneud yn siŵr bod yr hyn sy'n digwydd yfory yn gwneud gwahaniaeth.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.4 Dywedodd uwch arweinwyr fod datblygu sgiliau a hyder mewn asesu ffurfiannol a dulliau asesu o ddydd i ddydd wedi’u datblygu drwy gyfuniad o ddulliau: sesiynau dysgu proffesiynol mewnol; cynllunio meysydd/adrannau i werthuso ac adolygu arferion asesu; hyfforddiant dan arweiniad y Consortia Addysg Rhanbarthol; a chefnogaeth ymgynghorwyr allanol. Tynnodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd sylw at y rôl hanfodol a chwaraeir gan arweinwyr adrannau neu arweinwyr Meysydd wrth sicrhau bod athrawon yn asesu'r dysgu yn gyson. Roedd uwch arweinwyr ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na’u cymheiriaid mewn ysgolion cynradd o nodi bod angen cymorth dysgu proffesiynol ychwanegol i sicrhau bod asesu ar gyfer dysgu yn bwrw gwreiddiau cadarn.

9.5 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio asesu ffurfiannol i lywio gwaith cynllunio a dulliau addysgu gwahaniaethol sy’n ymateb i anghenion dysgwyr unigol.** Mae asesu ffurfiannol yn llywio gwaith cynllunio mewn ffordd a ddisgrifir gan ysgolion fel proses gylchol o gyflwyno’r cwricwlwm, asesu, myfyrio a chynllunio. Disgrifiodd uwch arweinwyr ym mhob lleoliad sut y mae athrawon yn defnyddio asesu o ddydd i ddydd i nodi dysgwyr sy’n llai ‘sicr’ neu’n llai ‘datblygedig’ o ran sgiliau a gwybodaeth benodol ac yn gwahaniaethu eu haddysgu i gefnogi’r dysgwyr hyn.

9.6 **Soniodd uwch arweinwyr am y newid mewn meddylfryd ac agwedd sydd ei angen er mwyn gwireddu’r uchelgais o gyflwyno dull asesu newydd.** Pwysleisiodd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd yr angen i athrawon ddatblygu *'dealltwriaeth mai gwerthusiad o gynnydd ar bwynt penodol mewn amser yw asesu... mae'r drafodaeth am gynnydd sy'n deillio o asesu rheolaidd yn bwysicach'.* Yn wir, roedd arweinwyr ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na’u cymheiriaid mewn ysgolion cynradd o wneud sylwadau ar yr heriau a wynebir gan ymarferwyr wrth drosglwyddo i ffyrdd newydd o feddwl am asesu.

> 'Sut mae newid o system sy'n canolbwyntio'n ormodol ar asesu crynodol fel yr unig ffordd o wirio a gawsoch chi effaith? Mae angen rhyddhau'r cwricwlwm o hualau'r model cynnydd ac asesu. Rydym wedi bod yn dibynnu ar ddata asesu ac felly mae'n anodd iawn cefnu ar y system hon sydd wedi gweithio cystal ers cyhyd. Mae angen i gynnydd ymwneud â datblygu gwybodaeth [dysgwyr] yn

systematig i gyrraedd y syniadau mawr yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan asesu cynnydd yn barhaus.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

9.7 Rhoddodd ysgolion enghreifftiau o'r nodweddion sy'n cael mwy o sylw o dan y trefniadau asesu newydd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mwy o bwyslais ar arsylwi fel rhan o asesu;
- Asesu cymheiriaid a dulliau hunanasesu;
- Mwy o gydweithio a safoni yn yr ysgol, gan helpu athrawon i ymgyfarwyddo ag iaith newydd yn ymwneud â chynnydd ac asesu;
- Asesiad sy'n seiliedig ar a yw dysgwyr yn cyflawni neu'n gwneud cynnydd yn unol â'u gallu (yn nodweddiadol wedi'i gefnogi gan ddata sylfaenol o asesiadau cenedlaethol neu offer asesu safonedig allanol);
- Adolygu/asesu yn erbyn targedau dysgu penodol ar gyfer dysgwyr, mewn rhai achosion targedau y mae disgyblion yn eu gosod iddyn nhw eu hunain bob tymor neu hanner tymor; yn ddiddorol, nododd uwch arweinwyr newid yn y ffordd yr oedd dysgwyr yn siarad am eu cynnydd eu hunain: 'mae'r plant yn defnyddio iaith ffurfiannol i'w helpu i ddeall ble maen nhw a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud wrth symud ymlaen' Uwch arweinydd ysgol gynradd.
- Dulliau asesu cymharol, sy'n canolbwyntio ar lafaredd ac agweddau eraill ar y Maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

9.8 **Nododd llawer o uwch arweinwyr ostyngiad yn swm cyffredinol yr asesu ffurfiol a wneir yn ystod y flwyddyn ysgol; fodd bynnag mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio asesiadau personol cenedlaethol i fesur cynnydd dysgwyr mewn darllen a rhifedd.** Mewn rhai achosion, pwysleisiodd uwch arweinwyr eu pwysigrwydd parhaus o ran meincnodi cyrhaeddiad dysgwyr.

> Mae '[asesiadau personol] yn allweddol i'n dealltwriaeth o gynnydd pob plentyn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.9 Mewn achosion eraill, nododd uwch arweinwyr fod canlyniadau’r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio gan ysgolion i fapio’r hyn sydd wedi’i gynnwys neu nad yw wedi’i gwmpasu’n ddigonol wrth gyflwyno’r cwricwlwm, yn hytrach nag fel ffordd o ddeall safonau neu lefelau dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu newid a fynegwyd gan nifer o

ysgolion (cynradd ac uwchradd) o ddefnyddio data asesu ar gyfer atebolrwydd i ddefnyddio'r data hyn i gefnogi a gwella'r broses o gynllunio'r cwricwlwm.

9.10 **Mae ysgolion yn defnyddio offer allanol i gefnogi eu hasesiadau.** Cyfeiriodd ysgolion at y defnydd o becynnau masnachol amrywiol, ond roedd rhai wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio, gan nodi nad oeddent bob amser yn cyd-fynd â'r cynlluniau cynnydd a'r trefniadau asesu yr oedd ysgolion wedi'u datblygu ac wedi dechrau eu gweithredu. Cyfeiriodd nifer fach o ysgolion cynradd ac uwchradd at brofion gallu gwybyddol CAT4 (GL Assessments): roedd y rhain weithiau'n cael eu defnyddio gan ysgolion fel rhan o ddull cyfunol o asesu sy'n defnyddio canlyniadau profion ochr yn ochr ag asesiad ffurfiannol a barn broffesiynol neu arsylwadau athrawon.[10] [11]

9.11 **Yn ogystal ag adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud, lleisiodd ysgolion amrywiaeth o bryderon hefyd mewn perthynas â threfniadau asesu.** Rhoddir crynodeb o'r rhain isod.

- Mae uwch arweinwyr mewn nifer o ysgolion yn teimlo bod **cryn ffordd i fynd cyn bod ganddynt drefniadau asesu clir a datblygedig**; roedd hyn yn mynd law yn llaw ag ymdeimlad bod **bylchau mewn data asesu a gwybodaeth am gynnydd dysgwyr y tu allan i lythrennedd a rhifedd**;
- **Gwahaniaethau ac anghysondebau o ran y dull gweithredu** a fabwysiedir gan ysgolion o fewn yr un clwstwr, gyda chydweithio ar asesu yn llai datblygedig nag agweddau eraill ar ddiwygio'r cwricwlwm; mae hyn yn rhannol gysylltiedig â heriau o ran dod o hyd i amser i ryddhau staff i gwrdd â chydweithwyr o ysgolion clwstwr.
- Mae ysgolion yn parhau i bryderu am **atebolrwydd, yn enwedig y data asesu neu dystiolaeth y bydd yn ofynnol iddynt eu dangos.** Nododd nifer o benaethiaid mai'r cwestiwn a ofynnir iddynt amlaf gan gorff llywodraethu'r ysgol yw sut y gallant ddangos tystiolaeth o'r hyn y mae staff

[10] Gweler CAT4 - GL Assessment (gl-assessment.co.uk)
[11] Offer asesu a phecynnau eraill a enwyd gan uwch arweinwyr oedd Pupil Progress, Go 4 Schools, Incerts, Taith 360, Prawf Darllen Salford, asesiad llafaredd Voice 21, BSquared.

ac uwch arweinwyr yn ei adrodd am y safonau. Mae ysgolion yn pryderu y bydd cwestiynau a materion tebyg yn codi yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

- Yn yr un modd â phwyntiau a godwyd mewn adrannau cynharach o'r adroddiad hwn, dangosodd uwch arweinwyr a gyfwelwyd ar adegau ddymuniad i gael sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddir mewn ysgolion yn briodol.

'Mae yna ansicrwydd ac rydym yn canfod ein bod yn ceisio dyfalu a ddylem fod yn adrodd ar lefelau neu o leiaf yn cadw golwg arnynt.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

9.12 **Dywedodd uwch arweinwyr mewn rhai ysgolion uwchradd fod y newidiadau i'r drefn asesu yn symlach i athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn gwybod yn wahanol, tra bod athrawon sydd weid bod yn addysgu ers tro yn debygol o'i chael hi'n fwy anarferol i newid o system lle mae profion diwedd blwyddyn / diwedd cyfnod yn rhan fwy sefydledig o'r system.**

9.13 Mae ysgolion yn ymwybodol o'r angen i **herio ac ymestyn y dysgwyr mwyaf galluog** yn ogystal â darparu'r cymorth priodol i bob dysgwr. Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion fod angen datblygu sgiliau'r dysgwyr mwyaf galluog ymhellach i allu gweithio'n annibynnol.

9.14 Nododd uwch arweinwyr fod pwyslais ar **wella ansawdd yr adborth rheolaidd a ddarperir i ddysgwyr,** gan helpu i ddatblygu metawybyddiaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr o'u cryfderau a'r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu. Cydnabuwyd y gall hyn helpu i gefnogi ymreolaeth dysgwyr.

**Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad**

9.15 **Roedd uwch arweinwyr ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o godi cwestiynau, neu leisio pryderon, am y gyfatebiaeth rhwng dulliau newydd o asesu ac arholiadau TGAU diwygiedig.** Nododd uwch arweinwyr yn aml eu bod yn dal i aros i ddarlun cliriach ddod i'r amlwg er mwyn deall sut i barhau i ddatblygu eu cwricwlwm a'u cynlluniau asesu i flynyddoedd 8 a 9 er mwyn sicrhau parhad.

9.16 **Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn fwy tebygol na’r rhai mewn ysgolion uwchradd o godi pryderon am wahaniaeth cynyddol mewn dulliau asesu.** Nododd uwch arweinwyr ysgolion cynradd fod ysgolion o fewn yr un clwstwr yn defnyddio offer asesu allanol gwahanol. Soniodd uwch arweinwyr hefyd am yr amrywiaeth o ran pa mor ddatblygedig oedd dulliau asesu gwahanol ysgolion – gan gynnwys o fewn yr un clwstwr. Awgrymwyd ei fod wedi effeithio ar allu rhai ysgolion i gydweithio.

> '[Mae] perygl y bydd pob ysgol yn gwneud rhywbeth gwahanol a dylai fod mwy o gysondeb. Mae'r gwaith clwstwr wedi bod yn anodd, mae rhai ysgolion wedi gwneud llawer [ar asesu] a rhai heb wneud dim.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

9.17 **Tynnodd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion sylw at y ffaith bod angen i ddulliau o ymdrin â chynnydd ac asesu yn eu lleoliad adlewyrchu’r cyd-destunau a’r heriau penodol y mae eu dysgwyr yn eu hwynebu.** Mae cynnydd academaidd yn aml yn llawer llai rhagweladwy a gall fod yn anwadal. Mae lleoliadau yn rhoi pwyslais ar fesur a chefnogi ymgysylltiad unigolion â dysgu, a ddisgrifiwyd fel dangosydd pwysig.

> 'Rydym bob amser wedi gorfod chwilio am ffyrdd eraill o fesur cynnydd: a ydynt yn dangos diddordeb yn y gwersi, sut mae eu hymddygiad - mae'r pwyslais ar ymgysylltu.' Uwch arweinydd uned cyfeirio disgyblion

9.18 Pwysleisiodd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion bwysigrwydd deall lles dysgwyr a’u hanghenion ‘o ran datblygiad cymdeithasol’ er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd o ran eu dysgu. Mae hyn yn ymwneud â'r sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben, yn enwedig 'effeithiolrwydd personol' a 'chynllunio a threfnu'. Nododd un uwch arweinydd y gall cefnogi disgyblion i gymryd camau bach tuag at reoli eu hemosiynau'n well fod yn allweddol i ragolygon a chanlyniadau dysgwyr, gan dynnu sylw at y ffaith y gall dangos tystiolaeth o gynnydd fod yn heriol.

> 'Mae'n anodd olrhain a dangos tystiolaeth o gynnydd yn ogystal â chydbwyso'r angen i gefnogi lles. Mae gwaith yn mynd rhagddo i [ddatblygu] system gadarn o olrhain a chofnodi tystiolaeth. Rydym yn gobeithio cynnwys y plant yn y broses er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Mae gweithwyr allweddol yn gweithio i sicrhau bod plant yn ymgysylltu â'r cwricwlwm, â'u cynnydd eu hunain.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

9.19 **Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig na fu newidiadau sylweddol i'r drefn asesu o dan drefniadau'r cwricwlwm newydd gan na fu erioed bwyslais ar brofion nac arholiadau diwedd blwyddyn.**

> 'Rydym yn defnyddio llyfrau [dysgwyr'], yr hyn y gallant ei wneud ar lafar ac yn ymarferol. Mae'n set gyfannol o asesiadau y mae athrawon yn eu cynnwys yn eu gwaith cynllunio.' Uwch arweinydd ysgol arbennig

Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig eu bod yn defnyddio BSquared fel system olrhain cynnydd, sy'n galluogi athrawon i bennu deilliannau unigol yn seiliedig ar alluoedd a thargedau personol dysgwr.[12]

[12] Gweler Meddalwedd Asesu B Squared

# 10. Tegwch

10.1 Mae’r adran hon yn amlinellu canfyddiadau’r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o sut y mae trefniadau'r cwricwlwm newydd yn cefnogi **tegwch a chynhwysiant.** Holwyd y rhai a gyfwelwyd am nifer o faterion yn ymwneud â hyn. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- Sut y mae gweithredu’r cwricwlwm hyd yma yn helpu i godi disgwyliadau ar gyfer pob dysgwr a mynd i’r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad;
- Y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn lleoedd cynhwysol ar gyfer dysgu.

10.2 Mae’r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau ar degwch a chynhwysiant gan uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

10.3 **Teimlai uwch arweinwyr fod tegwch wastad wedi bod yn bwysig yn eu lleoliadau, ond roeddent bellach yn canolbwyntio mwy ar y dysgwr o ran eu dull o ddylunio'r cwricwlwm, gyda’r hyblygrwydd i deilwra cymorth yn unol ag anghenion y dysgwyr.** Gan fod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y dysgwr, teimlai uwch arweinwyr fod hyn yn helpu ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran y modd y maent yn dylunio ac yn cyflwyno eu cwricwlwm.

> '[Rydym] bob amser yn trin pob plentyn yr un fath ond mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd i ni o ran sut a beth rydym yn ei ddarparu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> '[Mae'r ysgol] bob amser wedi canolbwyntio ar degwch, nid yw hyn yn beth newydd i ni. Mae'r canllawiau'n gynhwysfawr ac mae iddynt ffocws pendant, rydym yn rhoi pwyslais ar degwch mewn gwasanaethau boreol ac wrth addysgu. Mae'r hawl i barchu ac ymddygiad cysylltiedig yn greiddiol i ethos yr ysgol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Mae pawb yn cael eu trin â phwysigrwydd mawr.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.4 **Dywedwyd bod ffocws cynyddol ar lais y dysgwr yn cyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n gynhwysol.** Dywedwyd bod ymgysylltu â dysgwyr a'u cynnwys mewn sgyrsiau am ddylunio'r cwricwlwm yn helpu i sicrhau bod lleisiau'r dysgwyr yn cael eu clywed ac yn helpu lleoliadau i ddeall lles dysgwyr. Fe wnaeth uwch arweinwyr sylwadau ar brosesau llais y dysgwr sydd wedi'u hen sefydlu mewn ysgolion, ond nodwyd bod y rhain bellach yn fwy canolog i brosesau cynllunio a dylunio.

> 'Nid yw'n newid mawr i mi, mae'n ymwneud â chreu cwricwlwm sy'n addas at y diben ac sy'n cael ei fwynhau gan bob plentyn.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.5 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at ddulliau mwy unigoledig o fonitro cynnydd dysgwyr, gan nodi y rhoddir pwyslais ar sicrhau bob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol o ran ei ddysgu a'i ddatblygiad unigol ei hun.** (Gweler Adran 8)**.** Crybwyllwyd ystod o ddulliau asesu sy'n cefnogi'r dull hwn (Gweler Adran 9), ond pwysleisiodd uwch arweinwyr hefyd bod angen llawer o adnoddau er mwyn proffilio pob dysgwr, gydag uwch arweinwyr yn nodi hyn fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau tegwch. Dywedodd uwch arweinwyr fod adborth i ddysgwyr bellach yn cael ei deilwra'n well i unigolion, a bod hyn yn helpu i gefnogi cynnydd pob dysgwr yn briodol ac mewn ffordd fwy cynhwysol. Disgrifiodd un arweinydd ysgol newid o ganolbwyntio ar ddysgwyr a oedd 'ar y ffin rhwng C a D' (ar gyfer TGAU) i ddull mwy unigolyddol sy'n canolbwyntio ar gynnydd pob unigolyn. Dywedodd un uwch arweinydd fod canlyniad cadarnhaol addasu'r cwricwlwm yn golygu bod plant a arferai weithio'n arafach na gweddill y dosbarth bellach yn cael eu hintegreiddio'n fwy ac yn 'teimlo'n rhan o'r dosbarth'.

> 'Rydym bob amser wedi bod yn ysgol gynhwysol beth bynnag, ond mae'r cwricwlwm wedi chwalu'r rhwystrau a allai fod wedi bodoli o'r blaen.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

> 'Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yn gwneud y cynnydd cywir, beth bynnag mae hynny'n ei olygu iddyn nhw.' Uwch arweinydd, ysgol ganol cyfrwng Saesneg

10.6 **Cyfeiriodd uwch arweinwyr at bwysigrwydd bod yn gynhwysol bob amser a bodloni'r gofynion a nodir yn y cod ADY, gan ddweud bod y Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu iddynt hyrwyddo a chanolbwyntio ar gynhwysiant.** Cyfeiriodd uwch arweinwyr at waith parhaus yn eu lleoliad i roi'r cod ADY newydd ar

waith, gan nodi bod dulliau'n newid o ran staff yn cefnogi dysgwyr; er enghraifft, newid o sesiynau byr gyda phlant unigol i 'oruchwyliaeth strategol sy'n sicrhau bod y dosbarth yn gynhwysol' a gwelir cynnydd cadarnhaol yn y maes hwn. Mae cefnogaeth gan grwpiau rhwydwaith a dyrannu cyfrifoldeb i staff ar gyfer y maes hwn yn cyfrannu at ymgorffori hyn yn gryfach mewn ysgolion (e.e. penodi penaethiaid lles).

> 'Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi caniatáu inni hyrwyddo a chanolbwyntio ar gynhwysiant ar gyfer ADY a dysgwyr agored i niwed yn fwy nag y mae'r cwricwlwm blaenorol wedi'i wneud, ar adeg pan fo hyn yn hollbwysig. Mae hyn yn un o fanteision y Cwricwlwm i Gymru.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

> 'Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â thrawsnewid ADY. Mae'r Cydlynydd ADY wedi bod yn ein paratoi ar gyfer hyn, roedd [dysgwyr] yn aml wedi cael eu tynnu allan [o'r dosbarth] o'r blaen, nawr rydym yn ceisio gwneud mwy i fynd i'r afael â'u hanghenion yn y dosbarth, gyda chymorth yn yr ystafell ddosbarth.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

10.7 **Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod newid cynnwys eu cwricwlwm i fod yn fwy amrywiol ac i adlewyrchu cymdeithas yn well yn newid cadarnhaol sy'n digwydd yn eu lleoliad.** Soniodd uwch arweinwyr am bwysigrwydd cwricwlwm cydlynol, yn enwedig gan na fydd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cael cyfleoedd i 'lenwi'r bylchau' gartref. Pwysleisiodd uwch arweinwyr bwysigrwydd sicrhau bod y cwricwlwm yn gallu ymateb i ddigwyddiadau cyfoes a chwmpasu diwylliannau'r holl ddysgwyr, a bod y cynnwys hwn yn briodol ac yn berthnasol i ddysgwyr o bob cefndir. Dywedodd uwch arweinwyr fod agweddau megis hiliaeth, cydraddoldeb, goddefgarwch a pharch wedi'u cydblethu ar draws y Meysydd yn hytrach na chael eu darparu'n gyfan gwbl o fewn gweithgareddau iechyd a lles. Amlygodd uwch arweinwyr hefyd bwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel wrth sicrhau tegwch a soniwyd am enghreifftiau o ymyriadau wedi'u haenu ar gyfer dysgwyr yn ogystal â'u dulliau o greu cysylltiadau rhwng pynciau.

> '[Mae'r ysgol] yn edrych ar addysgu o safon fel allwedd i sicrhau tegwch.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

> 'Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi helpu gyda thegwch. Mae wedi rhoi ffocws ar addysgeg ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ogystal â rhoi profiadau cyfoethog i'r dysgwyr. Mae'r rhain i gyd wedi gwella, wedi'u llywio'n bennaf gan ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg

10.8 **Soniodd uwch arweinwyr am ystod o adnoddau a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff y gallant fanteisio arnynt i gefnogi tegwch yn eu lleoliad.** Dywedwyd bod adnoddau i ddatblygu cynnwys mwy amrywiol ar gyfer y cwricwlwm yn ddefnyddiol, ynghyd â rhaglenni a oedd yn canolbwyntio ar olrhain a chodi cyrhaeddiad y dysgwyr. Dywedodd uwch arweinwyr fod defnyddio adnoddau i uwchsgilio staff gyda dulliau i addysgu a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thegwch wedi bod yn llwyddiannus yn eu lleoliad. Dywedwyd bod cymorth allanol o'r fath wedi gwella ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r iaith fwyaf priodol i'w defnyddio wrth drafod pynciau penodol megis rhywioldeb ac ethnigrwydd. Roedd ysgolion hefyd yn manteisio ar fentrau allanol i gefnogi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dywedodd rhai lleoliadau eu bod yn ariannu rolau staff ymgysylltu â theuluoedd hefyd fel rhan o'u hymdrechion i wella tegwch.

> 'Rydym yn darparu cymorth cyffredinol, cymorth wedi'i dargedu a chymorth unigol i'n rhieni, ac rydym yn sicrhau nad yw gweithgareddau'n costio arian i'n rhieni a'u bod yn cael llawer o gefnogaeth allanol gyda hyn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

10.9 **Mynegwyd pryderon mewn nifer fach o leoliadau ynghylch eu gallu i ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â chodi safonau.** Er yr ystyriwyd bod hyblygrwydd y Cwricwlwm i Gymru yn rhywbeth cadarnhaol; roedd yr hyblygrwydd hwn hefyd yn achosi ansicrwydd o ran prosesau monitro ac atebolrwydd. Roedd rhai uwch arweinwyr yn pryderu ynghylch sut i sicrhau bod anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus yn cael sylw. Soniodd uwch arweinwyr hefyd am ansicrwydd ynghylch beth fyddai barn Estyn ar y dewisiadau yr oedd eu lleoliadau'n eu gwneud a'r gwahanol ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu mewn ysgolion.

> 'Mae codi disgwyliadau yn bryder oherwydd bod popeth mor hyblyg. Mae'n anodd codi safonau wrth newid pethau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

10.10 **Roedd uwch arweinwyr yn pryderu am fylchau mewn cyrhaeddiad y teimlwyd eu bod wedi gwaethygu yn sgil effeithiau'r pandemig.** Teimlai uwch arweinwyr fod bylchau mewn cyrhaeddiad wedi'u heffeithio gan y 'cyfnodau clo' ac, mewn rhai achosion, teimlai ymarferwyr eu bod yn delio â system 'dwy haen'; dysgwyr sydd â'r

ddealltwriaeth ofynnol a'r rhai sydd â bylchau yn eu dysgu. Roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod risg barhaus y byddai dysgwyr mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn colli tir, ac yn ystyried bod hyn yn llai o risg mewn ardaloedd mwy cefnog.

**Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad**

10.11 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o bwysleisio'r dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yr oeddent yn eu defnyddio wrth roi'r cwricwlwm ar waith.** Pwysleisiodd uwch arweinwyr cynradd fod eu dealltwriaeth o'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn adnabod y plant a'u bywydau cartref yn dda. Amlygodd uwch arweinwyr cynradd enghreifftiau o ddulliau unigol o ymdrin â chynnydd, gan ddisgrifio sut yr oedd dysgwyr yn penderfynu ar lefel yr her ar gyfer eu dysgu (Gweler Adran 8).

10.12 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o bwysleisio'r newidiadau yr oeddent wedi'u cyflwyno i sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn fwy amrywiol ac yn adlewyrchiad o gymdeithas.** Roedd uwch arweinwyr uwchradd yn fwy tebygol o gyfeirio at eu carfannau mawr ac amrywiol o ddysgwyr a chymunedau.

10.13 **Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio bod y cwricwlwm yn eu lleoliad bob amser wedi'i anelu at ddiwallu anghenion pob dysgwr.** Adroddwyd bod tegwch a chynhwysiant bob amser wedi bod wrth wraidd ysgolion arbennig ac, o ganlyniad, dywedwyd bod y Cwricwlwm i Gymru yn llai o newid iddynt; mae llais y disgybl yn bwysig, o ran dylunio'r cwricwlwm a deall lles disgyblion.

> 'Y peth da am y cwricwlwm hwn yw nad oes rhaid inni ei ychwanegu at ddim byd arall […] rydym yn ei ddylunio i weddu i anghenion y disgyblion o'r cychwyn cyntaf.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

10.14 **Roedd uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion yn fwy tebygol o gyfeirio at heriau'n ymwneud ag argaeledd adnoddau a chyfleusterau a fyddai'n eu galluogi i ddarparu'r gorau i'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed.** Er bod uwch arweinwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar anghenion dysgwyr unigol, roeddent yn teimlo bod bwlch cynyddol yn y

ddarpariaeth oherwydd diffyg adnoddau a seilwaith (e.e. labordai gwyddoniaeth, campfeydd) o gymharu ag ysgolion prif ffrwd. Oherwydd natur fregus dysgwyr mewn uneda cyfeirio disgyblion, teimlai uwch arweinwyr ei bod yn anodd iddynt baratoi ar gyfer y cwricwlwm, gan nodi na allant ragweld anhwylderau iechyd meddwl penodol dysgwyr a fydd yn ymuno â’r ysgol yn y dyfodol. Er hynny, roeddent yn ymwybodol mai'r nod yw i ddysgwyr ddychwelyd i addysg brif ffrwd.

> 'Ein plant ni yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn y fwrdeistref a gellir dadlau eu bod yn haeddu'r cyfleusterau gorau ond rydym wedi ein cyfyngu'n sylweddol oherwydd problemau'n ymwneud ag adnoddau.' Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion

## 11. Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

11.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o **ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.** Holwyd y rhai a gyfwelwyd ynghylch:

- sut y mae ysgolion yn cyfleu gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni a gofalwyr
- a yw gweithgarwch ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wedi ychwanegu at y pwysau ar gapasiti staff yn yr ysgol
- a yw rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm
- a oes angen cymorth ychwanegol ar ysgolion i ymgysylltu â rhieni a'u cymuned leol wrth ddylunio'r cwricwlwm.

11.2 Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi sylwadau ar ymgysylltiad uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill gyda rhieni a gofalwyr. Fel yn yr adrannau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu trefnu yn ôl y materion a godwyd amlaf, a materion eraill a godwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd.

### Pwyntiau cyffredinol

*Y pwyntiau a godwyd amlaf gan uwch arweinwyr*

11.3 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod yn ochelgar wrth gyfleu newidiadau'r Cwricwlwm i Gymru i rieni/gofalwyr, gan dynnu sylw at ystod o ddulliau a ddefnyddir i fwydo diweddariadau a newidiadau 'fesul tipyn',** o bosibl er mwyn osgoi eu 'gorlethu'. Amlinellodd sawl uwch arweinydd y dulliau cyfathrebu amrywiol yr oedd ei leoliad wedi'u defnyddio, gan gynnwys cylchlythyrau, apiau (fel Dojo/Seesaw y gallai rhieni fewngofnodi iddynt), yn ogystal â dosbarthu taflenni gwybodaeth a diweddaru eu gwefannau gyda dolenni i ddogfennau a fideos gan Lywodraeth Cymru.

11.4 Dywedodd rhai ysgolion fod crynodebau am y cwricwlwm yn cael eu rhannu gyda rhieni. Mae'r dogfennau hyn, sy'n ofyniad cyfreithiol i bob ysgol a lleoliad, yn amrywio o ran lefel y manylion y maent yn eu cynnwys. Maent fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am weledigaeth yr ysgol/lleoliad ar gyfer y cwricwlwm a gwybodaeth

am elfennau craidd fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (gan gynnwys y pedwar diben), sut y mae'r cwricwlwm wedi'i ddylunio a sut y caiff ei drefnu. Mae crynodebau'r cwricwlwm hefyd yn rhoi trosolwg o ddulliau o ymdrin â chynnydd dysgwyr fel arfer.

> 'Mae rhieni'n ymwybodol ond dydyn nhw ddim yn ymwybodol eu bod nhw'n ymwybodol! Rydyn ni'n rhannu llawer ar Twitter - maen nhw'n cael gwybodaeth yn ddyddiol. Maen nhw'n cael rhagflas o addysgu a dysgu yn yr ysgol. Rydym wedi cynyddu'r cysylltiadau â'r Pedwar Diben.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

11.5 **Soniodd rhai uwch arweinwyr nad oedd llawer yn mynychu digwyddiadau penodol yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru a drefnwyd ar gyfer rhieni a gofalwyr, megis gweithdai am y newidiadau,** a'u bod wedi rhoi cynnig ar ddulliau eraill o gyfathrebu ac ymgynghori â rhieni gyda chanlyniadau cymysg (er enghraifft drwy holiaduron ar-lein). Mewn rhai lleoliadau, esboniodd uwch arweinwyr fod hanes hir o ymgysylltu â rhieni yng ngweithgareddau'r ysgol a dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod rhieni'n cael eu hysbysu am newidiadau i'r cwricwlwm a'u bod yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, nododd nifer o uwch arweinwyr heriau hirdymor wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a oedd yn golygu bod cyfathrebu'r newidiadau i'r cwricwlwm yn arbennig o heriol. Teimlai uwch arweinwyr fod hyn oherwydd lefelau isel o ddealltwriaeth ymhlith rhieni/gofalwyr a difaterwch, er gwaethaf ymdrechion y lleoliadau i gynyddu ymgysylltiad. Fodd bynnag, nododd uwch arweinwyr hefyd fod gan rieni/gofalwyr lefelau uchel o ymddiriedaeth yn eu lleoliadau a'u hymarferwyr, a bod hyn yn esbonio'r lefelau isel o ymgysylltu; tynnodd uwch arweinwyr sylw at y ffaith, os yw'r plant yn hapus ac yn mynychu'r ysgol, yna mae rhieni a gofalwyr yn gefnogol, er eu bod yn ymgysylltu i raddau llai.

11.6 **Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi canfod bod gwell ymgysylltiad â rhieni a gofalwyr pan oeddent yn cynnal digwyddiadau a oedd yn ymgorffori gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, megis drwy gyflwyniadau, digwyddiadau dathlu a gwasanaethau yr oedd y plant hefyd yn cymryd rhan ynddynt**. Defnyddiwyd y digwyddiadau hyn i gyfleu gwybodaeth am gynnwys y cwricwlwm a newidiadau mewn modd llai amlwg a mwy anuniongyrchol. Cyfeiriodd mwy o ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd at y defnydd o'r dull hwn.

'Rydym wedi trefnu gwasanaethau dosbarth lle mae rhieni'n dod i mewn ac yn cymryd rhan mewn gwers, maen nhw hefyd yn aros i gael cinio. Mae hyn yn galluogi'r rhieni i ddysgu am y cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

'Mae cyfarfodydd Cwrdd â'r Athro yn rhoi gwybodaeth am y cynnwys sy'n cael ei addysgu ac fe wnaeth yr ysgol waith ar y pwnc 'Treftadaeth' lle roedd plant yn cyfweld â'u rhieni yn yr ysgol, ble y darparwyd te a choffi.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

11.7 **Soniodd uwch arweinwyr am ymdrechion i gynnwys rhieni a gofalwyr yn y broses o ddylunio'r cwricwlwm,** gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i'w hannog i ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys arolygon, gweithdai trafod, a diwrnodau gwybodaeth. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio, gyda rhai ysgolion yn cael fawr ddim ymateb ac eraill yn gweld lefelau ymgysylltu da, yn enwedig wrth ddefnyddio holiaduron. Roedd yn ymddangos bod rhai lleoliadau yn ymgynghori ar elfennau manwl o'r cwricwlwm, naill ai o ran cynnwys penodol y gellid ei ddatblygu, neu roeddent yn canolbwyntio ar agweddau mwy strategol fel datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd a disgwyliadau o ran cymorth gan rieni yn gartref.

'Roedd adborth gan rieni a dysgwyr yn awgrymu nad yw sgiliau bywyd sylfaenol yn cael eu haddysgu gartref (fel sgiliau coginio, sut i ddefnyddio peiriant golchi dillad) - felly cafodd y rhain eu hintegreiddio i'r cwricwlwm.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

11.8 **Roedd adroddiadau bod lleoliadau wedi mabwysiadu dull gochelgar o ymgynghori â rhieni a gofalwyr.** Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon mewn rhai lleoliadau ynghylch cynnwys rhieni yn rhy gynnar yn y broses ddylunio pan oedd yr ysgolion eu hunain yn ansicr ynghylch eu dulliau o ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Ymddengys fod awydd i gyfyngu ar gyfranogiad rhieni a gofalwyr nes bod athrawon ac ysgolion/lleoliadau wedi treulio mwy o amser yn cydlynu a dylunio'n fewnol yn gyntaf, a phwysleisiwyd y broses hirfaith sydd ynghlwm wrth ddatblygu a thrafod dulliau gweithredu.

'Mae'n teimlo'n beryglus cynnwys rhieni yn y broses ddylunio gan fod y cwricwlwm yn anodd ei ddeall. Mae gan athrawon ddegawdau o brofiad ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd. Rydyn ni'n bod yn ochelgar.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

'Fe wnaethon ni aros nes ein bod ni'n teimlo'n hyderus ynghylch ein system asesu a'r mesurau y bydden ni'n eu rhoi ar waith cyn ymgynghori. Doedden ni ddim eisiau iddyn nhw fod yn rhan o'r drafodaeth a'r dadlau a'r llanast. Cymerodd dair blynedd i hyn fod yn glir.' Uwch arweinydd, ysgol pob oed

*Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr*

11.9 Dywedodd nifer o uwch arweinwyr eu bod wedi cael adborth cadarnhaol gan rieni a gofalwyr am y newidiadau yn sgil y Cwricwlwm i Gymru, a bod y ffocws ar les a dysgu drwy brofiad yn cael ei groesawu'n gyffredinol.

11.10 Ychydig iawn o adroddiadau a gafwyd am effaith Covid ar ymgysylltiad rhieni/gofalwyr. Tynnodd rhai uwch arweinwyr sylw at y ffaith y bu lefelau is o ymgysylltu â rhieni ar ôl Covid ac felly eu bod eisoes wedi newid eu dull gweithredu cyn y newidiadau yn sgil y Cwricwlwm i Gymru.

**Amrywiadau mewn safbwyntiau yn ôl y math o leoliad ac iaith y lleoliad**

11.11 Fel y nodwyd uchod, **roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o fod wedi gwahodd rhieni a gofalwyr i ddigwyddiadau a oedd yn ymgorffori gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru (e.e. diwrnodau dysgu, digwyddiadau dathlu/gwasanaethau)**.

## 12. Casgliadau a materion i'w hystyried

12.1 Cafodd y casgliadau a'r materion i'w hystyried ymhellach a nodir isod eu datblygu yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn Adrannau 4-11.

**Cynnydd cyffredinol**

12.2 **Y darlun cyffredinol ar draws y sampl o 64 o ysgolion a lleoliadau a gyfrannodd at yr ymchwil hwn yw cynnydd cyson ac ymrwymiad i sicrhau bod diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiant.** Mae'n werth nodi nad oedd Medi 2022 yn fan cychwyn manwl gywir ar gyfer y rhan fwyaf o'r lleoliadau a gyfwelwyd; yn hytrach roedd yn barhad, neu'n ddyddiad gweithredu swyddogol, cynlluniau'r cwricwlwm a oedd wedi dechrau ffurfio ac wedi cael eu treialu yn ystod y blynyddoedd academaidd blaenorol.

12.3 Yn wir, yn union fel nad yw'r flwyddyn gyntaf hon o weithredu ffurfiol yn ddechrau'r daith ddiwygio, mae lleoliadau'n cydnabod nad yw'n agos at fod yn ddiwedd y broses ychwaith: **roedd barn unfrydol y byddai'n cymryd sawl blwyddyn i drefniadau newydd fwrw gwreiddiau'n llawn**, sy'n gofyn am adolygu, gwerthuso a diwygio, a gwelliannau parhaus.

12.4 Canfu ymchwil gydag ymarferwyr y llynedd i baratoadau ar gyfer y diwygiadau fod ymarferwyr yn tueddu i fynegi llai o hyder o ran eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn fwy tebygol o bryderu am agweddau ar y diwygiadau. Yn ystod y cam ymchwil hwn dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn cymryd perchnogaeth o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, gan nodi bod llawer yn **croesawu'r ymreolaeth y mae'r trefniadau newydd yn ei rhoi i athrawon ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a bod hynny'n tanio eu brwdfrydedd.**

12.5 Mae'n bwysig nodi'r amrywiadau a welwyd – amrywiadau mewn cynnydd cyffredinol ar draws y sampl o leoliadau a hefyd ymdeimlad bod gwell cynnydd yn cael ei wneud gyda rhai agweddau ar y cwricwlwm o gymharu ag eraill. Roedd yn ymddangos bod uwch arweinwyr a ddywedodd fod eu lleoliadau wedi bod yn cynllunio ac yn datblygu eu cwricwlwm am 3-4 blynedd yn fwy hyderus yn eu dulliau gweithredu na'r rhai a ddywedodd eu bod ar gamau gweithredu cynharach. Er bod

lleoliadau’n teimlo eu bod yn cryfhau dulliau addysgu a dysgu yn unol â’r egwyddorion addysgeg, roedd mwy o ansicrwydd o hyd ynghylch dulliau o ymdrin â chynnydd ac asesu.

12.6 **Roedd yn ymddangos bod agwedd uwch arweinwyr yn dylanwadu ar eu hyder o ran dull eu hysgol o weithredu’r cwricwlwm.** Roedd yn ymddangos bod rhai uwch arweinwyr wedi croesawu’r broses o ddylunio eu cwricwlwm newydd tra bod eraill wedi mynegi bod eu dull yn fwy gochelgar ac ansicr, yn enwedig wrth gyfeirio at drefniadau posibl yn y dyfodol yn ymwneud ag atebolrwydd a chymwysterau ysgolion.

12.7 Teimlai rhai uwch arweinwyr nad oedd cymorth ac arweiniad bob amser yn cyd--fynd â chyflymder y newid o ran gweithredu'r cwricwlwm, a chyfeiriodd rhai at y ffaith bod y cymorth 'gam neu ddau ar ei hôl hi'. **Ymddengys fod cydweithredu a gweithgarwch clwstwr wedi chwarae rhan bwysig o ran helpu i ddatblygu dulliau ar y cyd, a thawelu rhywfaint ar yr ansicrwydd a deimlwyd gan arweinwyr ac ymarferwyr**, gan roi sicrwydd iddynt drwy drafod y dulliau a oedd yn cael eu datblygu. Tynnodd uwch arweinwyr sylw at werth rhwydweithiau a gweithgarwch clwstwr rhwng arweinwyr Maes wrth gefnogir gwaith o gynllunio’r cwricwlwm.

**Mater i'w ystyried:**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog cydweithio rhwng lleoliadau, gan ganolbwyntio ar gefnogi cydweithio ymhlith arweinwyr Maes fel rhan o gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

12.8 Dywedodd uwch arweinwyr fod **datblygu a gweithredu cwricwlwm eu lleoliad wedi creu heriau o ran capasiti ac amser staff**, yn enwedig wrth gynllunio’r cwricwlwm a sicrhau ei fod yn cwmpasu’r elfennau gofynnol a nodir yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

### Cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar draws ac o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad

12.9 Dywedodd uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn eu lleoliadau yn defnyddio agweddau ar fframwaith y Cwricwlwm i Gymru i gynllunio a mapio cwricwla eu hysgolion. **Mae lleoliadau'n defnyddio datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau o ddysgu fel sail i ddylunio cynlluniau Maes** (neu 'gynlluniau pwnc' yn amlach mewn ysgolion uwchradd), adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau 'cwmpas' digonol a nodi bylchau sy'n llywio gwaith cynllunio parhaus. Roedd gwahaniaethau amlwg rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y sampl. Roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fod yn mabwysiadu dull mwy integredig yn seiliedig ar thema neu destun penodol. Roedd ysgolion uwchradd yn tueddu i ddweud eu bod wedi parhau i drefnu eu cwricwlwm yn ôl disgyblaethau pwnc sefydledig ym mhob un o'r Meysydd neu yn y rhan fwyaf o Feysydd. Lle roedd hyn yn wir, dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod mwy o gydweithio a chynllunio rhwng arbenigwyr pwnc sy'n gweithio o fewn yr un Maes, gan gynnwys trafodaethau am sut yr oedd amrywiol ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn berthnasol neu sut y gellid eu cefnogi ar draws pynciau.

12.10 Roedd amrywiadau o ran y Meysydd ble roedd uwch arweinwyr yn ystyried eu bod yn gwneud cynnydd da o ran dylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr yn gyffredinol fod Iechyd a Lles ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Feysydd mwy datblygedig o ran cydgynllunio a gweithio'n integredig. Cafwyd adborth cymysg ar lwyddiant yr ymdrechion i hyrwyddo cynllunio ar y cyd ym Meysydd y Dyniaethau a'r Celfyddydau Mynegiannol. Roedd yn ymddangos mai Gwyddoniaeth a Thechnoleg oedd y Maes mwyaf heriol o ran annog cynllunio ar y cyd, ym marn yr uwch arweinwyr.

### Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

12.11 **Dywedodd llawer o leoliadau y gwnaed cynnydd da gyda'r ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan adrodd nad oedd rhieni a gofalwyr wedi codi pryderon gyda nhw**, er eu bod weithiau wedi rhagweld y byddai materion yn cael eu codi. Roedd rhai uwch arweinwyr wedi cael ymatebion negyddol gan rieni a gofalwyr mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a

Rhywioldeb, ond roedd llawer wedi gallu mynd i'r afael â phryderon drwy ddarparu gwybodaeth ar y pynciau y bwriadwyd eu trafod yn yr ysgol.

12.12 Dywedodd llawer o uwch arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, fod eu **lleoliadau'n defnyddio deunyddiau o ffynonellau allanol (a brynir fel arfer) i lywio ac arwain y gwaith o ddylunio, cynllunio a chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**. Mewn rhai achosion, dywedodd uwch arweinwyr fod eu lleoliadau wedi addasu rhai o'r deunyddiau hyn i sicrhau eu bod yn briodol i ddatblygiad y disgyblion.

12.13 Mynegodd rhai uwch arweinwyr **awydd am gymorth mwy canolog ar gyfer dylunio'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**, yn arbennig mewn perthynas â datblygu adnoddau ystafell ddosbarth, a chodwyd pryderon ynghylch gallu lleoliadau i gyflawni'r agwedd hon ar y cwricwlwm heb fynd i gostau.

**Mater i'w ystyried:**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes achos dros ddatblygu adnoddau ychwanegol i gefnogi darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.

12.14 Dywedodd sawl uwch arweinydd ei fod wedi dyrannu cyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i aelod penodol o staff, drwy benodi Pennaeth Lles, er enghraifft. Dywedodd uwch arweinwyr fod eu harweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ceisio nodi cyfleoedd i gyflwyno agweddau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft ymgorffori rhai agweddau ar berthnasoedd o fewn Meysydd, megis y dyniaethau.

### Addysgu ieithoedd rhyngwladol

12.15 Roedd gwahaniaethau clir yn y graddau yr oedd uwch arweinwyr cynradd ac uwchradd wedi ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm newydd. **Yn nodweddiadol, dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd eu bod ar gamau cynnar o ran addysgu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion**. Roedd rhai eithriadau i hyn, yn enwedig ymhlith ysgolion a oedd wedi cael cymorth neu

wedi datblygu darpariaeth yn gysylltiedig â chynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru. Lle roedd darpariaeth ieithoedd rhyngwladol newydd yn cael ei datblygu mewn ysgolion cynradd, nododd uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn eu bod yn dibynnu ar gymorth gan athrawon arbenigol mewn ysgolion uwchradd. Darparwyd rhai enghreifftiau arloesol, gan gynnwys cynlluniau i fyfyrwyr iaith chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd gefnogi darpariaeth mewn ysgolion cynradd.

**Mater i'w ystyried:**

Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid rhanbarthol, sicrhau bod ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hyrwyddo a'u darparu fel rhan annatod o drefniadau'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol.

12.16 Nododd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd barhad yn eu darpariaeth o ieithoedd rhyngwladol yn unol â datblygiadau'r cwricwlwm. Nododd rhai ohonynt gynnydd yn eu gweithgaredd i gefnogi'r ysgolion cynradd yn eu clwstwr.

12.17 Nododd sawl uwch arweinydd, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, eu bod yn blaenoriaethu datblygu sgiliau Cymraeg yn hytrach nag ieithoedd rhyngwladol.

### Trefniadau ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr

12.18 Dywedodd lleoliadau eu bod wedi **buddsoddi cryn dipyn o amser yn ystod y 6-12 mis diwethaf yn ailgysyniadu cynnydd, yn gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd (o fewn lleoliadau ac ar draws clystyrau) ac yn datblygu cynlluniau cynnydd** neu fapiau ar gyfer Meysydd/pynciau. Mae cefnogaeth eang i egwyddorion cynnydd a dywedodd uwch arweinwyr fod arweinwyr canol ac ymarferwyr wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i lywio eu dull o ddeall cynnydd ac adrodd arno.

12.19 Dywedodd uwch arweinwyr y bu cynnydd mewn trafodaeth broffesiynol a deialog am gynnydd dysgwyr, ac ystyriwyd bod hynny'n werthfawr. Dywedwyd bod **mwy o bwyslais ar gefnogi cynnydd dysgwyr unigol**, gan gydnabod cefndir, cryfderau penodol, dyheadau a photensial pob un o'u disgyblion. Pwysleisiodd uwch

arweinwyr fod edrych yn fwy cynnil a 'chyfannol' ar gynnydd pob dysgwr yn helpu i lywio strategaethau addysgu a dysgu gwahaniaethol.

12.20 **Mae llawer o’r cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau eraill yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2022/23) wedi canolbwyntio ar gynnydd**. Mae hyn wedi cynnwys datblygu modelau cynnydd a rennir, a thrafodaeth ynghylch sut i ddehongli camau cynnydd, rhywbeth y mae nifer o ysgolion yn teimlo’n ansicr yn ei gylch.

12.21 Pwysleisiodd llawer o uwch arweinwyr eu bod yn awyddus i adolygu’r modelau a’r dulliau yr oeddent wedi’u datblygu ac i fesur yr ymateb gan rieni a gofalwyr i’r adroddiadau tymhorol cyntaf ar gynnydd dysgwyr, yr oedd llawer ohonynt yn cael eu llunio ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfweliadau (gweler 12.28 isod).

**Mater i'w ystyried:**

Yn ystod yr ail gam ymchwil hwn gydag uwch arweinwyr fel rhan o’r astudiaeth hon, dylid canolbwyntio ar ddeall y pwyntiau dysgu ar lefel ysgol yn sgil treialu modelau cynnydd newydd, gan gynnwys sut y mae ysgolion wedi mireinio a gwella eu dulliau gweithredu.

12.22 Roedd ymwybyddiaeth hefyd ymhlith uwch arweinwyr, wrth i leoliadau a chlystyrau ddatblygu eu dulliau unigryw eu hunain o ymdrin â chynnydd (ac asesu) – lle mae modelau, matricsau a therminoleg cynnydd newydd yn cael eu datblygu – fod hyn yn cyflwyno **her o ran sicrhau cydlyniaeth a chysondeb**. Teimlwyd bod llawer o amser ac ymdrech yn cael eu buddsoddi i ddatblygu, trafod ac adolygu dulliau o ymdrin â chynnydd.

**Mater i'w ystyried:**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro goblygiadau posibl gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddir gan leoliadau a chlystyrau i fonitro cynnydd, yn enwedig wrth ystyried sut i fonitro cynnydd ar lefel genedlaethol.

**Trefniadau asesu**

12.23 Mae ysgolion a lleoliadau wedi dechrau gwneud newidiadau i drefniadau asesu yn unol â'r weledigaeth a nodir yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Ar draws pob math o leoliad, mae **ffocws cynyddol ar asesu fel nodwedd o gyflwyno'r cwricwlwm o ddydd i ddydd**. Mae lleoliadau'n gweithio tuag at sicrhau bod asesu ffurfiannol – drwy amrywiaeth o ddulliau – yn llywio'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn barhaus. Nododd llawer o uwch arweinwyr eu bod yn datblygu sgiliau ac ymddygiad ymarferwyr i gefnogi asesu ffurfiannol drwy ddysgu proffesiynol (yn yr ysgol ac yn allanol) a thrwy greu amser i athrawon dreialu strategaethau asesu newydd a chydweithio ar strategaethau o'r fath. Mae hyn yn gofyn am agwedd a dull gwahanol o asesu sy'n ymwneud yn fwy â chefnogi cynnydd a gwella addysgu a dysgu i unigolion a grwpiau, yn hytrach na dangos 'effaith' at ddibenion atebolrwydd.

12.24 Dywedodd uwch arweinwyr ym mhob math o leoliad fod cefnogaeth i feddwl o'r newydd am ddibenion asesu. Ac eto **trefniadau asesu yw'r elfen o ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru y mae uwch arweinwyr yn teimlo sydd â'r nifer fwyaf o gwestiynau heb eu hateb**. Yn y bôn, mae'r pryderon yn ymwneud â bylchau posibl mewn data asesu neu dystiolaeth (o dan y trefniadau newydd) y bydd yn ofynnol i ysgolion eu darparu yn y pen draw. I raddau llai, dywedodd lleoliadau eu bod yn poeni hefyd am anghysondebau yn y dulliau sy'n cael eu mabwysiadu gan ysgolion.

12.25 Gallai'r ansicrwydd hwn esbonio pam mae nifer o ysgolion yn y sampl yn parhau i ddefnyddio offer asesu allanol ochr yn ochr â'r dulliau asesu newydd sy'n cael eu datblygu.

| **Mater i'w ystyried:** |
|---|
| Cyfeiriodd uwch arweinwyr yn aml at eu hawydd i gael sicrwydd bod y dulliau y maent yn eu defnyddio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, olrhain cynnydd ac, yn arbennig, asesu yn briodol (ac 'ar y trywydd iawn'). Er bod cydweithio rhwng ysgolion yn cyfrannu rhywfaint at ddarparu sicrwydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen am rôl sy'n darparu her adeiladol allanol i ysgolion (yn |

enwedig o ran cynnydd ac asesu) yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn o weithredu'r cwricwlwm newydd.

**Cefnogi tegwch a chynhwysiant**

12.26 **Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod gweithredu eu cwricwlwm newydd, ochr yn ochr â diwygiadau eraill fel y Ddeddf ADY, yn gyfle i gryfhau ac atgyfnerthu ymdrechion eu lleoliad i sicrhau tegwch a chynwysoldeb**. Ystyriwyd bod gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig y ffocws ar ddulliau mwy unigoledig o fonitro cynnydd, yn cyd-fynd yn dda â'r nod hwn. Teimlai uwch arweinwyr y gallai pwyslais cynyddol ar ddefnyddio llais y dysgwr a sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn fwy amrywiol helpu i greu cwricwlwm mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu anghenion eu dysgwyr yn well.

**Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.**

12.27 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod lleoliadau yn **ystyried y ffordd orau o gyfathrebu â rhieni a gofalwyr am newidiadau i'r cwricwlwm ac yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â rhieni**. Mae uwch arweinwyr yn nodi y gall gofyn barn rhieni a gofalwyr yn ystod y cam dylunio fod yn heriol, ac y gall ymgorffori gwybodaeth am y cwricwlwm mewn gweithgareddau eraill (e.e. digwyddiadau dathlu) fod yn ffordd fwy effeithiol o'u cyrraedd.

12.28 Mae'n ymddangos bod lleoliadau yn mabwysiadu dull gochelgar o newid y modd y maent yn adrodd i rieni a gofalwyr ar gynnydd dysgwyr. Er bod rhai wedi ychwanegu agweddau newydd at eu dulliau adrodd (e.e. adrodd ar agweddau tuag at ddysgu), mae'n ymddangos bod amharodrwydd i roi'r gorau i ddulliau traddodiadol o adrodd ar lefelau a graddau. Gallai hyn adlewyrchu peth ansicrwydd ymhlith ymarferwyr ynghylch eu dulliau newydd o fonitro cynnydd dysgwyr, a bod ymarferwyr eisiau aros nes eu bod nhw eu hunain yn fwy hyderus ynghylch eu dulliau gweithredu.

**Materion eraill a godwyd gan uwch arweinwyr**

12.29 Fel gyda'r *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu* adroddiad (Llywodraeth Cymru, 2022b), roedd uwch arweinwyr yn parhau i ddweud bod **diffyg amser i dreialu dulliau newydd, i ddirnad canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, ac i gynllunio a mapio cynnwys eu cwricwlwm o fewn ac ar draws Meysydd**. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd uwch arweinwyr fod diffyg cyllid digonol ar gyfer staff cyflenwi i ryddhau ymarferwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd clwstwr, dysgu proffesiynol a rhwydweithio yn her barhaus iddynt.

12.30 Roedd uwch arweinwyr, yn enwedig y rhai mewn ysgolion uwchradd **yn parhau i bryderu ynghylch sut y byddai eu cwricwlwm newydd yn cyd-fynd â chymwysterau a mesurau atebolrwydd yn y dyfodol**. Disgrifiwyd yr ansicrwydd hwn fel enghreifftiau o ffactorau 'allanol' a allai effeithio'n sylweddol ar ymddygiad lleoliadau ac felly eu dull o ddylunio'r cwricwlwm.

12.31 Teimlai uwch arweinwyr fod eu cwricwlwm newydd yn **darparu profiad dysgu cyfoethog i'w dysgwyr**, gyda mwy o gyfleoedd i addasu'r hyn a addysgir a gwneud gwersi'n haws i ddysgwyr uniaethu â nhw. O ganlyniad, teimlai uwch arweinwyr fod dysgwyr yn dechrau meithrin mwy o frwdfrydedd tuag at eu dysgu, a oedd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchiad cadarnhaol ar y cwricwlwm.

12.32 Mynegodd uwch arweinwyr bryderon am **effaith y galw cynyddol ar gapasiti ymarferwyr ar les yn y gweithlu**, gan dynnu sylw at swm y wybodaeth y mae'n rhaid ei dirnad a maint a natur barhaus y dasg o ddylunio'r cwricwlwm.

## Atodiad A: Canllaw holi ar gyfer cyfweliadau

**CYNNYDD CYFFREDINOL (5 MUNUD)**

**1. Sut fyddech chi'n crynhoi cynnydd eich ysgol wrth weithredu'r cwricwlwm newydd [ers i ni siarad ddiwethaf]?**

- Beth sydd wedi gweithio'n dda a pham? Beth sydd wedi cefnogi cynnydd eich ysgol?
- Beth sydd heb weithio cystal hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau i symud ymlaen hyd yma.

**DYLUNIO A GWEITHREDU'R CWRICWLWM A DULLIAU ASESU**

**2. Rydym yn awyddus i glywed profiadau ysgolion o ddylunio'r cwricwlwm a'r dulliau asesu mewn perthynas ag elfennau penodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru**

**GWEITHIO AR DRAWS MDPh**

2a) Yn gyntaf, beth yw eich argraffiadau o'r broses o gynllunio a gweithredu eich cwricwlwm ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad?

- Sbardun: Ydy'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol/fel y rhagwelwyd hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

2b) Sut ydych chi wedi dechrau gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn trefniadau cwricwlwm newydd eich ysgol?

- Sbardun: Ydy'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol/fel y rhagwelwyd hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**IEITHOEDD RHYNGWLADOL**

2c) Sut mae dyluniad eich cwricwlwm wedi siapio a/neu wedi effeithio ar hyrwyddo ac addysgu ieithoedd rhyngwladol?

- Sbardun: Ydy'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol/fel y rhagwelwyd hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**CYNNYDD**

**3. Sut mae'ch ysgol yn gweithio'n fewnol, a chydag ysgolion eraill, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr?**

- Sbardun: Ydych chi wedi gweithio gydag ysgolion o fewn eich clwstwr?
- Ydych chi wedi gweithio gydag ysgolion y tu allan i'ch clwstwr?
- Sut mae eich ysgol chi'n rhannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr gyda rhieni?
    - Sut ymateb sydd wedi bod gan rieni?
    - Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd i rieni bob tymor ar gynnydd dysgwyr. A yw rheoli hyn yn bosibl? Faint o faich mae hyn yn ei greu?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y cwricwlwm yn herio'r holl ddysgwyr yn briodol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr.

**ASESU**

4. Sut mae eich ysgol yn gweithio'n fewnol, a chydag ysgolion eraill, i gynllunio dulliau o asesu?

- Sbardun: Beth sydd wedi newid o ran eich dulliau o asesu
- Ydy'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol/fel y rhagwelwyd hyd yma? Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol penodol sydd ei angen arnoch o ran yr agwedd hon ar y cwricwlwm (e.e. dysgu proffesiynol, canllawiau, adnoddau)? Gallai hyn olygu cefnogaeth i wella arweinyddiaeth neu ymarfer proffesiynol.

**TEGWCH**

**5. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod y disgwyliad y bydd y cwricwlwm yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb i bawb – mae hyn yn cynnwys dysgwyr o bob cefndir economaidd-gymdeithasol, dysgwyr Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a**

**dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Sut mae gweithredu eich cwricwlwm hyd yma yn helpu i godi disgwyliadau ar gyfer pob dysgwr a mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad;**

- Sbardun: Pa gamau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn lle cynhwysol i ddysgu?
- Pa ymateb sydd wedi bod gan ddysgwyr a rhieni i unrhyw ddulliau newydd a gymerwyd fel rhan o'r cwricwlwm newydd?

**YMGYSYLLTIAD RHIENI A GWARCHEIDWAID**

**6. Sut mae'ch ysgol yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd?**

- Sut ydych chi wedi cyfleu gwybodaeth am y cwricwlwm i rieni a gofalwyr?
- I ba raddau y mae gweithgarwch ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wedi ychwanegu at faich gwaith staff yn yr ysgol? Sut mae ymarferwyr wedi ymateb i'r gweithgareddau ychwanegol hyn? Pa ymateb sydd wedi bod gan rieni a gofalwyr?
- Ydy rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm?
- Oes angen cymorth ychwanegol ar ysgolion i ymgysylltu â rhieni a'u cymuned leol wrth ddylunio'r cwricwlwm.

**UNRHYW SYLWADAU ERAILL**

**7. Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ar weithredu'r cwricwlwm newydd yn eich ysgol neu ar y diwygiadau yn ehangach?**